# Adroddiad Adolygu Cydraddoldeb 2017/18

# (Y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2018)

**Adroddiad Adolygu Cydraddoldeb 2017/18**

## 1. Cyflwyniad

Dyma Adroddiad Adolygu Cydraddoldeb Dinas a Sir Abertawe ar gyfer 2017-18. Dyma'n seithfed adolygiad dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac mae'n adlewyrchu'r rheoliadau adrodd ar gyfer Cymru, a gyflwynwyd yn 2011.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys manylion:

- Yr ail adolygiad cynnydd ar gyfer Amcanion Cydraddoldeb 2016 - 2020
- Gwybodaeth am gydraddoldeb
- Gwybodaeth am gyflogaeth a hyfforddiant
- Gwybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i'n dyletswyddau deddfwriaethol.

## 2. Adolygu'r Amcanion Cydraddoldeb

Cynhaliwyd yr adolygiad blynyddol o gynnydd yn ystod mis Ebrill a mis Mai 2018 a darparodd pob adran fanylion am ei chynnydd. Mae'r holl wybodaeth hon i'w gweld yn Atodiad 1.

Cafodd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2016 – 2020 ei fabwysiadu gan y cyngor ym mis Mawrth 2016 ac mae ar gael yn www.abertawe.gov.uk/cynlluncydraddoldebstrategol mewn fersiynau llawn, cryno a hawdd eu darllen.

## 3. Gwybodaeth am Gydraddoldeb

Mae'r broses o ddadansoddi gwybodaeth am gydraddoldeb wedi cael ei chynnal a'i datblygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda gwybodaeth ddemograffig ychwanegol a chyfredol yn cael ei chynnwys ar we-dudalennau 'Ystadegau' y cyngor. Mae hyn yn cynnwys data cymdeithasol a demograffig o'r Cyfrifiad a ffynonellau swyddogol eraill.

Mae amrywiaeth o ddulliau dadansoddi, sy'n rhannol gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig, wedi cael eu cynnwys yn Asesiad o Les Lleol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LlCD) 2015. Cafodd yr asesiad ei derfynu a chytunodd y BGC arno ym mis Ebrill 2017 ac, yn ei dro, mae hyn wedi llywio Cynllun Lles Lleol ac amcanion y bwrdd. Yn y dyfodol, bydd dadansoddiad pellach o wybodaeth am gydraddoldeb yn ofynnol fel rhan o'r fframwaith mesur lles sy'n cael ei ddatblygu gan bartneriaid y BGC.

Cafodd fersiynau newydd o'r proffiliau o ardaloedd lleol, gan gynnwys data/gwybodaeth wedi'i (d)diweddaru lle'r oedd ar gael, eu cwblhau ym mis Ionawr 2018 ar gyfer wardiau, ardaloedd cymunedol (fel y'u diffiniwyd yn Neddf LlCD) ac ardaloedd cyflwyno (ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf gynt). Bwriedir adolygu cynnwys y proffiliau cyn y caiff y fersiynau nesaf eu llunio'n ddiweddarach yn 2018.

Mae gwaith monitro a dadansoddi ystadegau sydd ar gael am bobl â nodweddion gwarchodedig hefyd yn parhau i gael ei wneud ar gyfer rhaglen

Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru. Fel rhan o hyn, ac i gefnogi tasgau a phrosiectau eraill, mae staff yn cynnal ymwybyddiaeth o ddatblygiadau mewn data a gwybodaeth am nodweddion gwarchodedig.

Rydym yn parhau i ddefnyddio gwybodaeth am gydraddoldeb er mwyn cyfeirio ein Hasesiadau Effaith Cydraddoldeb (AEC); mae hyn yn amrywio yn ôl pwnc, perthnasedd a ffocws yr AEC.

Mae'r arolwg mawr i blant a phobl ifanc wedi cyrraedd diwedd ei gontract gyda Viewpoint ac felly byddwn yn mynd trwy broses i bwyso a mesur arolygon eraill sydd o gwmpas ar hyn o bryd a nodi unrhyw gyfleoedd/angen am fecanweithiau eraill i gyflwyno barn plant a phobl ifanc i'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

**4. Gwybodaeth am Gyflogaeth a Hyfforddiant**
Gweler Atodiad 2 am yr wybodaeth hon. Yn ogystal, mae ein hadroddiad ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi'i gyhoeddi yn www.abertawe.gov.uk/BwlchCyflogRhwngyRhywiau.

**5. Gwybodaeth Ychwanegol**
Mae'r adran hon yn rhoi manylion cryno am ein gwaith arall sy'n berthnasol i ofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ystod 2017-18.

5.1 Cynghorwyr Hyrwyddo
Mae ein Cynghorwyr Hyrwyddo'n gyfrifol am amrywiaeth eang o faterion cydraddoldeb yn ogystal â themâu ehangach megis iechyd a lles, gofalwyr a cham-drin domestig.

Mae'r Cynghorwyr Hyrwyddo'n rhoi llais i grwpiau neu faterion nad ydynt fel arfer wedi'u cynrychioli'n ddigonol yn y gorffennol ac y mae angen eu cadw yn rheng flaen busnes y cyngor er nad ydynt efallai'n gyfrifoldeb i'r un unigolyn neu bwyllgor.

Maent yn sicrhau bod y mater neu'r grŵp y maent yn ei hyrwyddo yn cael ei ystyried wrth lunio polisïau a phenderfyniadau'r cyngor.

Am fwy o fanylion, ewch i https://democracy.swansea.gov.uk/mgListOtherPosts.aspx?bcr=1&LLL=0

5.2 Asesiadau Effaith Cydraddoldeb (AEC)
Rydym yn parhau i ddefnyddio ein proses AEC estynedig, sy'n cynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), gofalwyr, cydlyniant cymunedol, tlodi, eithrio cymdeithasol a'r Gymraeg. Fel bob amser, rydym wedi canolbwyntio ar sicrhau bod y broses yn parhau i fod yn hwylus i ddefnyddwyr, yn effeithiol ac yn ymarferol i gydweithwyr ar draws y sefydliad. Eleni rydym wedi gwella'r broses ymhellach eto trwy gynnwys egwyddorion allweddol ymagwedd hawliau dynol ac ehangu elfen gynnwys templed yr adroddiad. Rydym hefyd wedi datblygu arweiniad ychwanegol ar gyfer cydweithwyr.

Mae ein protocol Cydraddoldeb a Chynnwys (i sicrhau bod asesiadau effaith cydraddoldeb yn cael eu holrhain a'u monitro trwy broses adrodd a phenderfynu'r cyngor) yn parhau i fod yn ddefnyddiol iawn wrth sicrhau yr ystyrir materion cydraddoldeb ac yr eir i'r afael â hwy lle y bo angen.

Mae ein proses cynllunio gwasanaethau hefyd yn cynnwys arweiniad ac offer AEC.

Mae pob adroddiad AEC wedi'i gwblhau yn parhau i gael ei gyhoeddi yn https://democracy.swansea.gov.uk/ieDocHome.aspx?bcr=1&LLL=0?Lang=eng ynghyd ag adroddiadau corfforaethol perthnasol.
Mae cyllideb y cyngor hefyd yn destun y broses AEC.

5.3 Ymgynghori a Chynnwys

Mae gwybodaeth am ein dulliau a'n trefniadau ymgynghori a chynnwys ar gael yn http://www.abertawe.gov.uk/lleisiwcheichbarn. Rhoddir diweddariadau ychwanegol yn Atodiad 1 – gweler Amcan Cydraddoldeb 11.

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein perthynas â grwpiau cymunedol lleol:

- Fforwm LGBT

Dechreuodd Fforwm LGBT Bae Abertawe ym mis Chwefror 2012 ac mae'n cael ei gynnal gan Ddinas a Sir Abertawe mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru.  Mae'r aelodaeth yn cynnwys staff neu wirfoddolwyr o sefydliadau lleol a chenedlaethol sy'n cynrychioli buddion dinasyddion LGBT.

Mae aelodau'r fforwm yn cymryd rhan mewn digwyddiadau blynyddol megis Diwrnod Rhyngwladol yn Erbyn Homoffobia a Thrawsffobia (IDAHOT), Mis Hanes LGBT a'r Diwrnod Deu-welededd, ac yn eu cefnogi. Eleni, dechreuodd gweithgor bach o aelodau'r fforwm gynllunio ar gyfer y digwyddiad Pride Abertawe cyntaf mewn sawl blwyddyn a adwaenir fel Pride y Gwanwyn 2017 a chaiff ei arwain gan y Cyng. King, Hyrwyddwr LGBT. Cynhaliwyd y digwyddiad hwn yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau.

Mae'r fforwm wedi bod yn ddylanwadol wrth osod dau amcan cydraddoldeb ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 y cyngor. O ganlyniad i hynny yn 2017, cynhaliom seminar ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau dan y teitl 'Dyna natur bechgyn'. Roedd yn cynnwys cyfraniadau gan Stonewall Cymru a Phrifysgol Abertawe. Cafwyd cynulleidfa dda a llawer o adborth cadarnhaol gan wrandawyr a siaradwyr.

Roedd yr ail amcan yn ymwneud â'r angen am arweiniad ar LGBT mewn ysgolion. Cafodd dogfen ei llunio a'i chyflwyno a oedd yn rhoi gwybodaeth glir i ysgolion y gall fod ganddynt ddisgyblion sy'n trawsnewid neu'n dod allan, fel y gallant dderbyn y gofal a'r gefnogaeth gywir.

- Fforwm BME

Yn dilyn adolygiad y llynedd a thrafodaeth a ddilynodd ynghylch fforwm rhanbarthol, cyflwynwyd y Rhwydwaith BME Rhanbarthol eleni. Wedi'i arwain gan y Tîm Cefnogi Ieuenctid Ethnig (EYST) fel rhan o Raglen Cydraddoldeb a Chwynhwysiant Llywodraeth Cymru, mae'r rhwydwaith bellach wedi cwrdd dair gwaith ac wedi llunio cynllun gweithredu. Rydym yn parhau i gefnogi EYST wrth i'r rhwydwaith ddatblygu.

- Grŵp Cydgysylltu Anableddau

Mae'r Grŵp Cydgysylltu Anableddau'n caniatáu am ddeialog ddwyffordd rhwng y cyngor a phobl anabl a/neu eu sefydliadau. Mae'r grŵp yn cynnwys pobl anabl leol a sefydliadau anabledd ynghyd â Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe.

Yn ystod 2017-2018, cyfarfu'r grŵp hwn saith gwaith. Mae'n bwysig nodi bod y grŵp yn pennu'r agenda ar gyfer y cyfarfodydd hyn ar y cyd â'r Tîm Mynediad at Wasanaethau ac mae nifer y ceisiadau am gyfarfodydd (gan aelodau'r grŵp a gwahanol adrannau'r cyngor) yn parhau i gynyddu.

Mae cyfarfodydd wedi cynnwys gwybodaeth a thrafodaethau am y canlynol:
- Ffordd y Brenin
- Abertawe Ganolog
- Cwynion corfforaethol
- Adolygiadau comisiynu'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion
- Addysg
- Sgwâr y Castell

5.4 <u>Cydgynhyrchu</u>
Cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol ers y diweddariad diwethaf:

- Mae'r Swyddog Datblygu Cydgynhyrchu, sydd yn y trydydd sector, wedi parhau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o gyd-gynhyrchu, gwybodaeth amdano a chefnogaeth i'r cyngor, partneriaid iechyd, Bae'r Gorllewin, partneriaid yn y Trydydd Sector a dinasyddion.
- Mae'r Rhwydwaith Cydgynhyrchu ar gyfer Abertawe'n cael ei lansio ar 24 Mai 2018 yn dilyn lansiad llwyddiannus y Rhwydwaith Cydgynhyrchu Rhanbarthol a gynhaliwyd gan asiantaethau Abertawe ym mis Mawrth 2018.
- Rydym yn parhau i agor y broses gaffael i gefnogi ymagweddau cydgynhyrchu; rydym yn cydgynhyrchu manyleb gwasanaeth ar gyfer eiriolaeth broffesiynol annibynnol ac rydym yn cynnwys dinasyddion yn y broses dendro. Rydym hefyd yn cynnwys dinasyddion yn y gwaith o ailfodelu ac aildendro Byw â Chymorth.
- Rydym yn gweithio ar y cyd ag unigolion sy'n derbyn taliadau uniongyrchol a rhieni sy'n ofalwyr i fapio prosesau Taliadau Uniongyrchol yn Abertawe â'r nod o ymgymryd â dadansoddiad beirniadol o'r broses bresennol. Rydym wedi gweithio'n galed i gydgynhyrchu’r cyfarfodydd gan sicrhau cydbwysedd teg rhwng staff a

dinasyddion, rhannu prosesau gwneud penderfyniadau ynghylch amserau cyfarfodydd a sut i gynnal y sesiynau i sicrhau y cyflwynir egwyddorion cydgynhyrchu trwy gydol y broses hon.

- Rydym yn gweithio gyda dinasyddion i gydgynhyrchu elfennau o Fframwaith Arfer newydd i'r Gwasanaethau i Oedolion. Mae grŵp cynllunio bach sy'n cynnwys swyddogion yr awdurdod lleol, y Swyddog Datblygu Cydgynhyrchu a dinasyddion yn cynllunio digwyddiad ym mis Mai 2018 i gynnal sgwrs am sut mae gwaith cymdeithasol da ac asesiad da yn edrych. Bydd y gwaith hwn yn llywio Fframwaith Arfer Abertawe ac Arweiniad ar Asesu Gwaith Cymdeithasol i helpu pobl i baratoi ar gyfer eu hasesiadau.
- Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr iechyd i ail-lunio eu swydd cynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn swydd cydgynhyrchu i gyflwyno strategaeth ar gyfer cynnwys dinasyddion mewn gwasanaethau iechyd meddwl yn y sector iechyd.
- Mae'r Grwpiau Comisiynu Strategol yn parhau i wneud cynnydd tuag at weithio'n gydgynhyrchiol ac ym meysydd iechyd meddwl ac anabledd corfforol rydym yn cefnogi dinasyddion i flaenoriaethu'r meysydd ar gyfer gweithredu cydgynhyrchiol yn y strategaethau comisiynu. Mae hyn eisoes wedi'i wneud yn y Gwasanaethau Anableddau Dysgu.
- Mae'r Gwasanaethau i Oedolion yn arwain ar ddatblygu strategaeth y Gyfarwyddiaeth ar gyfer cydgynhyrchu, offeryn hunanasesu, pecyn hyfforddiant ar gyfer timau staff a phecyn cymorth i gefnogi rhoi cydgynhyrchu ar waith ar draws y Gyfarwyddiaeth.
- Cydgynhyrchodd Cefnogi Pobl yr egwyddorion a'r canlyniadau sylfaenol i lywio dyluniad a chyflwyniad cefnogaeth yn ôl y galw yn Abertawe.
- Archwilio ymagweddau cydgynhyrchu wrth ailgomisiynu gofal cartref, yn enwedig mewn perthynas â dylunio a thendro gwasanaethau.

5.5 <u>Troseddau Casineb</u>

Rydym wedi datblygu Cynllun Gweithredu Rhanddeiliaid Troseddau Casineb Abertawe gyda phartneriaid allweddol (i gyd-fynd â 'Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu' Llywodraeth Cymru). Mae gan ein cynllun 3 amcan strategol:

- Atal troseddau casineb
- Cynyddu adrodd a mynediad i gefnogi dioddefwyr
- Gwella'r ymateb amlasiantaeth i droseddau casineb

Mae'n ddogfen ddeinamig ac yn cael ei chynnal gan y grŵp cynllunio amlasiantaeth sy'n cwrdd bob chwarter.

Mae'r cwrs e-ddysgu ar droseddau casineb wedi cael ei adolygu ac mae staff yn cael mynediad ato fel cwrs gorfodol.

Er mwyn cynyddu nifer y troseddau casineb yr adroddir amdanynt, mae hyfforddiant ymwybyddiaeth wedi cael ei ddarparu gan Gymorth i Ddioddefwyr a Chyngor Abertawe i asiantaethau partner a staff y cyngor. Cafodd digwyddiad 'hyfforddi'r hyfforddwr' ei ddatblygu hefyd gan y cyngor a Chymorth i Ddioddefwyr a'i gyflwyno i staff a phartneriaid.

Mae'r cyngor yn parhau i hyrwyddo Cymorth i Ddioddefwyr, sef y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Rhoi Cymorth ac Adrodd am Droseddau Casineb swyddogol ar gyfer Cymru.

I nodi Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb, trefnwyd seminar cynyddu ymwybyddiaeth o'r enw 'What if...it was you?' lle clywodd staff y cyngor gan amrywiaeth o siaradwyr, gan gynnwys Anabledd Cymru, Stonewall Cymru, EYST, Heddlu De Cymru a Chymorth i Ddefnyddwyr.

I gael mwy o wybodaeth, ewch i http://www.reporthate.victimsupport.org.uk/

5.6 Cydlyniant Cymunedol
Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ariannu'r rhaglen Cydlyniant Cymunedol am flwyddyn arall (2018-19). Bydd y rhaglen newydd yn canolbwyntio ar 4 amcan:

- Gweithio'n strategol i chwalu rhwystrau i gynhwysiad ac integreiddio ar draws grwpiau ymylol
- Gweithio'n lleol i chwalu rhwystrau i gynhwysiad ac integreiddio ar gyfer grwpiau a chymunedau penodol
- Cefnogi ymfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches a'r cymunedau sy'n eu cynnal yn ystod y broses integreiddio
- Mynd i'r afael â gwahaniaethu, gelyniaeth, tyndra ac eithafiaeth

Y gobaith yw y bydd yr ymagwedd newydd hon gan Lywodraeth Cymru'n galluogi pob cyngor i nodi blaenoriaethau lleol. Bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi'r Cynllun Cyflwyno newydd.

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Abertawe wedi sefydlu Gweithgor Strategol yn ddiweddar sy'n bwriadu datblygu llwybr atgyfeirio mewnol ac arweinwyr diogelu yn yr adran i fynd i'r afael yn effeithiol â materion sy'n ymwneud â chaethwasiaeth fodern.

5.7 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)
Mae'r Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc yn nodi'r trefniadau sydd gan Ddinas a Sir Abertawe i sicrhau cydymffurfio â'r ddyletswydd sylw priodol ar gyfer sefydlu CCUHP yn fframwaith polisi'r awdurdod lleol.

Mae cynllun gweithredu CCUHP wedi'i ddatblygu sy'n seiliedig ar flaenoriaethau a nodwyd yn glir, ac sy'n cwmpasu ymagwedd cyngor cyfan at hawliau plant. Mae chwe maes allweddol sy'n canolbwyntio ar:

1. Wneud trefniadau yr ystyrir eu bod yn addas ar gyfer hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad gan blant ym mhenderfyniadau'r awdurdod a allai effeithio arnynt, fel sy'n ofynnol o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.
2. Datblygu gwybodaeth am CCUHP a dealltwriaeth ohono trwy hyfforddiant i'r holl staff a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn Ninas

a Sir Abertawe, gan gynnwys partneriaid statudol a gwirfoddol allweddol eraill.
3. Hyrwyddo CCUHP a chynyddu ymwybyddiaeth ohono.
4. Sicrhau bod dulliau priodol a chadarn ar waith i dderbyn adborth a chwynion o ran CCUHP.
5. Sicrhau cydymffurfio â dyletswydd sylw priodol CCUHP, ei hatebolrwydd a'i heffaith, sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
6. Cafodd y trydydd adroddiad cynnydd ar y ddyletswydd sylw priodol ar gyfer sefydlu CCUHP yn fframwaith polisi'r awdurdod lleol ei lunio ym mis Medi 2017 ac mae'n cyfeirio amcanion yn y cynllun gweithredu blynyddol.

Mae hawliau plant wedi'u hymgorffori'n llwyr yn ein proses AEC a'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Bu'n ofynnol i bob maes gwasanaeth bennu o leiaf dri amcan CCUHP, gyda ffocws ar:

1. Hyfforddiant a gwell gwybodaeth am CCUHP a dealltwriaeth ohono.
2. Hyrwyddo CCUHP a chynyddu ymwybyddiaeth ohono trwy wneud y cysylltiad pendant â'r erthyglau perthnasol a defnyddio "Dilly" (y logo hawliau plant ar gyfer Abertawe).
3. Cydymffurfio â'r broses AEC.

5.8 Addysg ac Ysgolion

Mae dros hanner ysgolion Abertawe bellach yn defnyddio 'My Concern' i gofnodi pob achos o bryderon am ddiogelu/les. Mae'r feddalwedd ddiogelu yn dileu'r angen am ffeiliau papur trwy fonitro a rheoli pob pryder lles sydd gan y plant a'r bobl ifanc. Rydym wrthi'n ystyried ar hyn o bryd y ffordd orau o ddefnyddio'r feddalwedd i roi trosolwg i'r cyngor o'r mathau o achosion sy'n cael eu cofnodi. Byddai hyn yn rhoi trosolwg lefel uchel i ni ac yn caniatáu i ni glustnodi cefnogaeth yn effeithlon ac yn effeithiol.

5.9 Gwaith gyda Phobl Hŷn

➢ Cynllun Heneiddio'n Dda/Cynllun Lles Lleol Abertawe

Cytunwyd ar Gynllun Lles Abertawe ym mis Mai 2018. Cytunwyd bod Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda yn un o'r pedwar amcan allweddol i bartneriaid ganolbwyntio arno. Bydd y gwaith Heneiddio'n Dda'n cael ei gysylltu â gwaith yn y Cynllun Gweithredu Lles Lleol.

➢ Digwyddiadau a Gweithgareddau Cynnwys

Cynhaliwyd Digwyddiad Cynnwys Heneiddio'n Dda ym mis Ebrill 2017 i hyrwyddo gwasanaethau a gwybodaeth ac i gasglu barn am yr hyn y mae Heneiddio'n Dda'n ei olygu i bobl ynghyd â sut byddai canol dinas sy'n ystyriol o oed yn edrych.

- Roedd dros 200 o bobl yn bresennol
- Rhoddodd dros 60 o bobl eu barn

Cynhaliwyd digwyddiad i nodi Diwrnod Pobl Hŷn y DU ym mis Hydref 2017 yn Stiwdio Theatr y Grand a dyma gipolwg ar yr adborth a gafwyd:

- Roedd dros 200 o bobl yn bresennol
- Roedd dros 40 o arddangoswyr
- Roedd tîm CCUHP a thîm y Blynyddoedd Cynnar yn bresennol
- Gwiriwyd diogelwch 25 o flancedi trydan
- Cafodd 60+ o bobl wiriad meddyginiaeth/pwysau gwaed

Ni chynhaliwyd cyfarfod cyffredinol blynyddol yn 2017 ond, yn hytrach, cynhaliwyd parti Nadolig i ddod â phawb ynghyd. Mae'r cyfarfod blynyddol nesaf wedi'i drefnu ar gyfer mis Gorffennaf 2018 a chaiff ei gynnal ar y cyd â chyfarfod cyffredinol blynyddol y grŵp Abertawe sy'n Ystyriol o Ddementia er mwyn ceisio dod â'r ddau grŵp ynghyd.

Caiff digwyddiadau fforwm yn y dyfodol eu cyfuno â gweithgareddau’r grŵp Abertawe sy'n Ystyriol o Ddementia.

5.10 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i'r cyngor:

"*weithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau y diwellir anghenion presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain*”.

Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu ystyried effeithiau ar ‘y rhai heb eu geni’ wrth wneud penderfyniadau ar draws pob gwasanaeth. Mae'r cyngor yn ymrwymedig i sicrhau bod ein gweithredoedd yn cyfrannu mor llawn â phosib at les cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol Abertawe a'i phreswylwyr nawr ac yn y dyfodol. Trwy fwyafu cyfraniad y cyngor at y nodau llesiant cenedlaethol, rydym yn creu'r amodau i sicrhau cydraddoldeb gwell i bawb.

Mabwysiadodd Polisi Datblygu Cynaliadwy Abertawe yr egwyddor ganolog hon yn 2012. Mae pob adran bellach yn ystyried (i radd gynyddol) yr effaith tymor hir ar genedlaethau'r dyfodol wrth ddylunio, cynllunio a chyflwyno gwasanaethau. Rydym yn sicrhau ein bod yn mabwysiadu egwyddor datblygu cynaliadwy ym mhopeth a wnawn; mae hyn yn cynnwys ystyried y tymor hir.

Mae integreiddio gwirioneddol datblygu cynaliadwy wedi cael ei adlewyrchu drwy brif ffrydio gweithgareddau a oedd yn ganolog yn flaenorol mewn Uned Datblygu Cynaliadwy. Yn yr un modd, mae gwaith Bwrdd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cael ei integreiddio ym mecanweithiau llywodraethu prif ffrwd.

5.11 Tlodi

Mae trechu tlodi'n flaenoriaeth gorfforaethol ac yn un o'r pum amcan allweddol yng Nghynllun Corfforaethol Abertawe; Cyhoeddwyd Strategaeth Trechu Tlodi ddiwygiedig ar gyfer Abertawe, "Gweithio tuag at ffyniant i bawb", yn 2018 sy'n cyd-fynd â Strategaeth Atal gyntaf Cyngor Abertawe ar gyfer Abertawe. Cyhoeddwyd hon yn 2018 hefyd.

www.abertawe.gov.uk/strategaethtlodi

Mae Strategaeth Trechu Tlodi ddiwygiedig Abertawe'n nodi'r canlynol fel diffiniad o dlodi yng nghyd-destun Abertawe:

- Incwm dan y Safon Isafswm Incwm
- Diffyg mynediad at wasanaethau hanfodol o safon
- Diffyg cyfleoedd neu adnoddau i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol a hamdden ac wrth wneud penderfyniadau.

Ar ben hynny, mae'r cyngor yn nodi ei weledigaeth ar gyfer Abertawe, gan ddyheu i gael Abertawe sy'n bodloni'r canlynol:

- Nid yw tlodi incwm yn rhwystr i fod yn llwyddiannus yn yr ysgol, cael bywyd iach a bywiog, datblygu sgiliau ac ennill cymwysterau a chael swydd foddhaus.
- Eir i'r afael â thlodi gwasanaethau drwy glustnodi adnoddau lle gallant gael yr effaith fwyaf, gyda phenderfyniadau ar hynny’n cael eu gwneud ar y cyd â defnyddwyr gwasanaethau.
- Mae ein holl breswylwyr yn mwynhau cyfranogi ac mae ganddynt y cyfle a'r adnoddau i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol a hamdden ac wrth wneud penderfyniadau.
- Mae preswylwyr yn mwyafu eu hincwm ac yn gwneud y mwyaf o'r arian sydd ganddynt.
- Mae preswylwyr yn osgoi talu'r 'Premiwm Tlodi', sef y costau ychwanegol y mae'n rhaid i bobl ar incwm isel eu talu am hanfodion megis tanwydd a chludiant.
- Mae Rhwystrau i Gyflogaeth megis trafnidiaeth a gofal plant yn cael eu diddymu.
- Nid yw pobl o gymunedau mwyaf difreintiedig Abertawe'n cael eu heithrio ac mae'r anghydraddoldebau rhwng cymunedau ac ynddynt yn cael eu lleihau.

Mae cynllun cyflwyno ar draws adrannau'n gosod ymrwymiadau ar draws y cyngor i sicrhau bod trechu tlodi'n fusnes i bawb.  Caiff yr ymagwedd hon ei chefnogi ymhellach gan Fforwm Tlodi Cyngor Abertawe a Fforwm Tlodi Partneriaeth Abertawe, gan hyrwyddo'r neges a datblygu prosiectau a gwasanaethau sy'n cefnogi'r egwyddor hon.

Mae'r Strategaeth Atal ar gyfer Abertawe'n adeiladu ar yr ymagwedd ataliol y mae Abertawe wedi'i chymryd erioed. Daeth hyn yn sgîl cydnabyddiaeth hirsefydlog fod gweithgarwch atal yn well, yn cymryd llai o amser ac, yn y pen draw, yn llai costus a niweidiol i unigolion a sefydliadau na gwella. Nid arbedion sy'n gyrru'r agenda ond, yn hytrach, wasanaethau mwy cydlynol sydd wedi'u personoli.

Mae ataliaeth yn un o egwyddorion sylfaenol Blaenoriaethau Corfforaethol Abertawe ac Amcanion Lles Abertawe, gan ystyried Deddf Llesiant

Cenedlaethau'r Dyfodol ynghyd â’r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Cymerir ymagwedd drawsadrannol hefyd at gyflwyno'r Strategaeth Atal ar gyfer Abertawe gydag ymrwymiadau ar draws y cyngor wedi'u cefnogi gan Fforwm Tlodi Cyngor Abertawe a Fforwm Tlodi Partneriaeth Abertawe.

5.12 <u>Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes</u>

Mae'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes yn cynnwys tri maes dysgu craidd:
- Sgiliau hanfodol a dysgu fel teulu
- Dysgu am oes heb ei achredu
- Llythrennedd digidol a TG

Yn hanesyddol, mae'r gwasanaeth wedi cyflwyno cyrsiau dysgu i oedolion yn y gymuned ledled Abertawe yn seiliedig ar alw ar ddarpariaeth barhaus a'n carfan o ddysgwyr presennol. Bydd hyn yn parhau fel ein bod yn: 1) parhau i ateb y galw gan ein dysgwyr presennol, ac yn 2) darparu incwm allweddol sy'n angenrheidiol ar gyfer ein cynaladwyedd fel gwasanaeth.

Yn ogystal â'r uchod, rydym yn mireinio ein model o gyflwyno gwasanaethau er mwyn gallu cynyddu ein darpariaeth i ddiwallu'r anghenion a nodwyd drwy ymgynghori â dysgwyr, gwaith partneriaeth ac ymdrechion strategol a nodwyd yn lleol ac yn rhanbarthol. Mewn termau go iawn, mae hyn yn golygu y bydd ein dewis o gyrsiau yn mynd y tu hwnt i'r ddarpariaeth bresennol sy'n mynd i'r afael â chynhwysiad cymdeithasol, iechyd da a lles, i dargedu anghenion penodol y rheiny ar incymau isel a/neu â sgiliau isel. Wrth gwrs, rydym yn parhau i ddatblygu darpariaeth y gwasanaeth o Ddysgu am Oes sy'n effeithio ar gynhwysiad cymdeithasol ac iechyd a lles gyda gweithgareddau yn y dyfodol wedi'u cynllunio ar gyfer Gŵyl Ddysgu, Wythnos Dysgwyr sy'n Oedolion ac Arddangosfa'r Haf.

Cynhelir cyrsiau dysgu anffurfiol heb eu hachredu mewn pynciau fel TG i ddechreuwyr, y celfyddydau creadigol a lles ar draws y ddinas gan roi ffocws i ddysgwyr presennol am gynnydd a chyfle i ddenu pobl newydd i ddysgu. Mae'r gwasanaeth hwn yn cefnogi grŵp amrywiol o unigolion gan gynnwys y rheiny y mae'n anodd eu cyrraedd, sy'n anweithgar yn economaidd neu sydd ar y cyrion, gan ddarparu cyngor, arweiniad a chefnogaeth briodol i ddatblygu dysgwyr trwy'r maes dysgu o'u dewis.

Mae cyrsiau wedi'u teilwra ac a gyflwynir ar y cyd ar gyfer Cefnogaeth Ddigidol, Dysgu fel Teulu, Sgiliau Hanfodol a Dysgu am Oes, yn parhau i ehangu wrth i ni newid pwyslais ein gwasanaeth yn brosiectau sy'n cynnwys Byw/Bwyta'n Iach, Cefnogaeth Ddigidol CC, Cefnogaeth Clwb Gwaith a chyflwyno prosiectau amlasiantaeth.

Mae dysgu a datblygu Sgiliau Hanfodol yn rhan sylfaenol o'r gwasanaeth Dysgu Gydol Oes ac mae'n allweddol wrth drawsnewid bywydau dysgwyr. Cyflwynir y gwaith o sawl lleoliad ac mae'n cefnogi unigolion gyda llythrennedd, rhifedd a chyflogadwyedd. Rhoddir achrediad Cyn-mynediad i

Lefel 2 gan Sgiliau Hanfodol Cymru ac Agored Cymru. Cyflwynir Dysgu fel Teulu hefyd mewn partneriaeth ag ysgolion ledled Abertawe gan hyrwyddo agweddau cadarnhaol at ddysgu ar gyfer rhieni a'u plant, wrth ddatblygu Sgiliau Hanfodol ein dysgwyr. Mae'r tîm Sgiliau Hanfodol hefyd yn cefnogi cyrhaeddiad cyflym cymwysterau Lefel 2 Sgiliau Hanfodol Cymru - sydd gyfwerth â graddau A-C TGAU - ac mae ein rhaglen TG yn cefnogi achrediad Agored Cymru o Lefel Mynediad 3 i Lefel 1, ynghyd â chymwysterau Lefelau 1 a 2 yr ECDL.

Ar y cyfan, mae'r gwasanaeth yn darparu amrywiaeth o ganlyniadau sy'n gallu newid bywydau unigolion gan fynd i'r afael ag eithrio cymdeithasol, hyrwyddo cydlyniant cymunedol a datblygu cynnydd. Mae dysgwyr yn credu bod yr hyder sy'n cael ei fagu drwy eu profiad o ddysgu yn helpu i gefnogi agwedd fwy cadarnhaol tuag at eu bywydau.

5.13 Diwygio Lles
Mae'r Grŵp Llywio Cynhwysiad Ariannol (GLICA) yn parhau i gwrdd bob chwarter. Mae'r GLICA wedi adolygu a diweddaru ei gylch gorchwyl yn ddiweddar, mae wrthi'n datblygu cynllun gweithredu diwygiedig ac mae bellach yn gweithredu fel yr Is-grŵp Ffyniant ar gyfer Fforwm Partneriaeth Tlodi Abertawe.

Mae Credyd Cynhwysol Gwasanaeth Llawn yn parhau i gael ei gyflwyno i hawlwyr sy'n byw yn Abertawe sydd wedi cael newid mewn amgylchiadau sy'n dod â'u hawl i'w budd-daliadau presennol i ben neu sy'n gorfod hawlio budd-dal prawf modd am y tro cyntaf erioed. Yn dilyn yr ymgyrch i annog pobl i hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, mae'r llywodraeth bellach wedi cytuno i adolygu'n genedlaethol sut caiff y lwfans ei ddyfarnu yn dilyn trosglwyddo o'r Budd-dal Analluogrwydd. Mae gan y gwasanaeth Dysgu Gydol Oes diwtor yng Nghanolfan Waith Abertawe i wella sgiliau hawlwyr Credyd Cynhwysol.

Mae'r Tîm Hawliau Lles yn parhau i gynrychioli unigolion mewn apeliadau ar yr haen gyntaf ac mewn gwrandawiadau Uwch Dribiwnlys ynghylch Budd-dal Lles Nawdd Cymdeithasol a Chredyd Treth. Mae'r tîm yn cyflwyno amrywiaeth o gyrsiau hyfforddiant yn canolbwyntio ar y prif fudd-daliadau lles i staff yr awdurdod lleol, asiantaethau partner a sefydliadau eraill. Mae hyn yn sicrhau bod ein gweithlu (a staff mewn sefydliadau eraill) yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y newidiadau mewn deddfwriaeth. Cododd y tîm £3,569.45 wrth werthu cyrsiau a hyfforddodd 56 o aelodau staff y cyngor gan arbed yr awdurdod rhag talu sefydliadau allanol. Mae'r tîm hefyd yn rhoi cyngor a chefnogaeth ynglŷn â pholisi ac yn ymateb i ymgynghoriadau ar ddiwygio lles. Mae'r Llinell Gyngor Hawliau Lles yn parhau i ddarparu cyngor arbenigol i staff rheng flaen i'w cynorthwyo gyda phroblemau budd-dal eu cleientiaid.

5.14 Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
Mae gwaith strategol wedi'i gryfhau drwy ddatblygu ein hymagwedd bartneriaeth at ymdrin â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV). Cafodd Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2018-2022 newydd ar gyfer Abertawe ei

chyhoeddi eleni ar ôl ymgynghori'n llawn â gweithwyr proffesiynol ac aelodau o'r gymuned. Bydd y strategaeth newydd hon yn rhoi ymrwymiad tymor hwy i'n nodau o sicrhau atal, diogelu a chefnogi o ran VAWDASV.

Mae'r Siop dan yr Unto ar gyfer Cam-drin Domestig yn parhau i ddatblygu ei gwasanaethau trwy ymagwedd bartneriaeth amlasiantaeth. Mae'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau ar draws y continwwm angen, o gyfleuster galw heibio brys i'r Rhaglen Rhyddid, y Rhaglen Feithrin a sesiynau coffi a chrefftau. Mae cymorthfeydd ar gael ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys cyngor cyfreithiol, cyngor ar gamddefnyddio sylweddau ac ar ddyled. Caiff gwasanaethau'r Siop dan yr Unto eu monitro gan y Grŵp Partneriaeth sy'n ceisio darparu gwasanaethau ar gyfer amrywiaeth o anghenion gofal, o ataliaeth ac argyfyngau i ôl-ofal, ac maent ar gael i bob aelod o'r gymuned. Mae gwaith yn cael ei ddechrau i ystyried rhoi cefnogaeth benodol ar waith ar gyfer dioddefwyr gwrywaidd a'r rhai o'r gymuned LGBT.

I atgyfnerthu ein hagenda ataliol, rydym wedi sefydlu'r Ganolfan Cam-drin Domestig yn dilyn adolygiad y cyngor o gam-drin domestig - rhan o adolygiad y cyngor o wasanaethau cefnogi teuluoedd trwy'r rhaglen Abertawe Gynaliadwy.

Arweiniodd yr adolygiad at lansio Canolfan Cam-drin Domestig newydd y llynedd gan ddod â Chyngor Abertawe ynghyd â'i bartneriaid yn y gwasanaeth iechyd, yr Heddlu a'r Trydydd Sector i helpu plant a theuluoedd sy'n profi cam-drin domestig neu broblemau mewn perthnasoedd sy'n gwaethygu. Mae staff y cyngor, darparwyr gwasanaethau, asiantaethau partner, elusennau a goroeswyr oll wedi cyfrannu at ei dyluniad.

Mae'r Ganolfan Cam-drin Domestig yn darparu ymagwedd teulu cyfan er mwyn sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn teimlo'n ddiogel, a heb ofn, nawr ac yn y dyfodol, drwy gael eu cefnogi gan y bobl gywir ar yr amser cywir i roi'r cymorth y mae ei eisiau a'i angen arnynt. Mae ganddi ffocws amlasiantaeth ac mae'n symleiddio'r llwybrau i wasanaethau cefnogi, gan gynnwys iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.

5.15 <u>Fersiwn Hawdd ei Darllen</u>
Y llynedd, cyhoeddon ni ein hadolygiad blynyddol mewn tri fformat:

- adroddiad llawn
- crynodeb
- fersiwn hawdd ei darllen.

Byddwn yn gwneud yr un peth eleni i sicrhau bod gwybodaeth hygyrch ag y bo modd.

5.16 <u>Gwasanaeth Cyfieithu a Dehongli Cymru (GCDC)</u>
O ganlyniad i'n haelodaeth o bartneriaeth GCDC, mae gennym ymagwedd gydlynol at bob math o ddehongli a chyfieithu, gan gynnwys darpariaeth dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Nid yw hyn yn cynnwys cyfieithu Cymraeg-Saesneg mewnol gan ein huned gyfieithu.

Y pum iaith bennaf y gofynnwyd amdanynt yn 2017-2018 oedd:

1. Arabeg
2. Pwyleg
3. Cwrdeg (Sorani)
4. Bengaleg
5. Rwmaneg

5.17 Y Gronfa Newid

Trwy Gronfa Newid y Trydydd Sector yn 2017-18, cefnogwyd cyfanswm o 16 o sefydliadau'r trydydd sector a rhai gwirfoddol yn ariannol trwy grantiau i gyflwyno gwasanaethau a phrosiectau ar draws Abertawe. Mae nifer o'r sefydliadau hyn yn gweithio gyda phobl â nodweddion gwarchodedig, neu'n cynrychioli eu lles hwy. Yn 2018, diweddarwyd Cytundeb Compact Trydydd Sector yn amlinellu sut bydd Cyngor Abertawe a'r trydydd sector yn gweithio gyda'i gilydd yn y dyfodol.

5.18 Cyllid ar gyfer Plant a Phobl Ifanc LGBT

Trefnwyd bod arian grant ar gael o fis Ebrill 2013 i ddarparu gwasanaeth cefnogi peilot i bobl ifanc LGBT 13-25 oed. Cafodd grantiau eu dyfarnu i ddau sefydliad i weithio ar y cyd i ddarparu'r gwasanaeth peilot. Mae'r gwasanaeth hwn wedi bod yn llwyddiannus a chaiff ei adolygu yn 2018 i sicrhau bod y gefnogaeth hon yn parhau yn y dyfodol.

## 6. Sylwadau Terfynol

Mae'r adroddiad blynyddol hwn wedi ein galluogi i asesu ein cynnydd yn ystod ail flwyddyn ein CCS diwygiedig.  Gwnaed cynnydd yn erbyn yr holl Amcanion Cydraddoldeb ac mae swm yr wybodaeth ychwanegol mae'n rhaid i ni ei gyflwyno ar ben ein Hamcanion Cydraddoldeb yn parhau i gynyddu, sy'n gadarnhaol iawn.  Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad parhaus i'r agenda gydraddoldeb a'r cynnydd ychwanegol sy'n cael ei wneud.

## Atodiad 1

### Amcanion Cydraddoldeb – Y Cynnydd Diweddaraf

| Amcan Cydraddoldeb 1 – Sicrhau cydraddoldeb mynediad at wasanaethau |
|---|
| Cyswllt â'r Blaenoriaethau Corfforaethol: Diogelu Pobl Ddiamddiffyn |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| **Tlodi a'i Atal** | | |
| Datblygu trefniadau gyda'r Tîm Cwynion Corfforaethol i sicrhau dulliau hygyrch ar gyfer mynd i'r afael â materion sy'n codi o ran hawliau plant yn Abertawe (gan gynnwys cyfeirio i eiriolwyr a rhoi adborth) | 2016 | **Wedi'i gwblhau:**<br>Mae pob ymateb i ymholiad a dderbynnir trwy flwch post CCUHP yn dilyn Safon Abertawe.<br><br>Datblygwyd map proses ar gyfer ymdrin â materion sy'n ymwneud â DASA a'r "Ddyletswydd Sylw Priodol" a chytunwyd arno |
| Parhau i hwyluso'r Grŵp Mynediad at Chwarae a'r Grŵp Teuluoedd a Chwarae Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig | 2019 – cyfrannu at yr Archwiliad o Ddigonolrwydd Chwarae | **Ar waith:**<br>Mae'r Grŵp Mynediad at Chwarae a'r Grŵp Teuluoedd a Chwarae BAME (sylwer ar y newid mewn enw) yn parhau i gwrdd gan roi cyfle i nodi materion allweddol ynghylch mynediad a chynhwysiad er y cafwyd problemau ariannu a gallu gyda phartneriaid allanol sydd wedi cael effaith ar y grŵp.<br>Gan fod y grwpiau hyn yn bwydo i'r Rhwydwaith Chwarae cyffredinol, mae'n caniatáu i faterion a datblygiadau perthnasol gael eu mynegi ymhlith carfan fwy. |
| Darparu amrywiaeth o wasanaethau trwy raglen Teuluoedd yn Gyntaf yn benodol ar gyfer teuluoedd â phlant anabl. | Mawrth 2017 | **Ar waith:**<br>Mae gan wasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf ffrwd waith sy'n cefnogi teuluoedd y mae anabledd yn effeithio arnynt. Mae'r ffrwd waith hon yn cynnwys: |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| | | 1. Cefnogaeth i deuluoedd â phlant cyn oed ysgol sydd ag anabledd sy'n ymddangos neu sydd wedi'i ddiagnosio. Wedi'i chyflwyno trwy Stepping Stones.<br>2. Cefnogaeth gyfannol i deuluoedd a gwasanaeth eiriolaeth sy'n canolbwyntio ar ADY ac addysg, a ddarperir gan SNAP.<br>3. Cefnogaeth i ofalwyr ifanc trwy'r YMCA.<br>4. Sgiliau bywyd a chefnogaeth deuluol ar gyfer pobl ifanc ag ymddygiad heriol iawn ac anableddau difrifol drwy'r prosiect Buddies gan Local Aid.<br>5. Cyllid i grwpiau cymunedol amrywiol drwy'r grant chwarae i blant anabl.<br>6. Cefnogaeth i ddatblygu iaith gynnar drwy'r tîm mewnol Ymyriadau Cynnar. |
| **Cyfathrebu a Chynnwys Cwsmeriaid** | | |
| Cyflwyno gwasanaeth Iaith Arwyddion Prydain newydd yn y Ganolfan Gyswllt | Ionawr 2017 | **Wedi'i gwblhau:**<br>Mae'r cyngor bellach yn defnyddio adnoddau mewnol i gyflwyno Gwasanaeth Iaith Arwyddion Prydain gyda dau swyddog ar gael ar Lefel 1 BSL a thri swyddog ar gael ar Lefel 2 BSL. Mae gennym hefyd fynediad at adnodd lefel uwch yn ôl y gofyn trwy ein partneriaeth â Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru a gall preswylwyr ofyn am gyfieithydd o'u dewis os yw ar gael. |
| Cyflwyno gwasanaeth tecstio SMS i breswylwyr | Ionawr 2017 | **Wedi'i gwblhau:**<br>Mae gwasanaeth ar waith gyda 546 o negeseuon testun wedi'u derbyn rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018 (SMS: 07919 626434) |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| Darparu cefnogaeth ychwanegol i gwsmeriaid y Ganolfan Gyswllt trwy roi staff wrth y fynedfa i gynorthwyo pan fo angen | Adolygu effeithiolrwydd bob chwe mis | **Wedi'i gwblhau:**<br>Mae'r cyngor yn parhau i gael staff 'ar y llawr' wrth fynedfa'r Ganolfan Ddinesig i gynorthwyo preswylwyr gyda'u hymholiadau neu i'w helpu i dalu wrth y ciosgau talu. |
| **Tai a Diogelu'r Cyhoedd** | | |
| Datblygu Strategaeth Rhenti. Bydd rhan o'r strategaeth hon yn sicrhau bod y broses adennill ôl-ddyledion yn hawdd ei deall ac yn ystyried anghenion y cwsmer, yn enwedig y rhai a all fod yn ddiamddiffyn. | 2019 | **Ar waith:**<br>Mae paratoi ac ymateb i'r newidiadau y mae'r broses Diwygio Lles wedi'u cyflwyno dros y 18-24 mis diwethaf wedi bod yn heriol. Mae darparu adnoddau ar gyfer y Strategaeth Rhenti wedi bod yn anodd yn enwedig gan fod swydd y Rheolwr Rhenti wedi newid i rannu swydd gyda gofynion hyfforddiant ar gyfer y rheolwr newydd ei benodi. Cyd-darodd hyn ag Abertawe'n dod yn ardal wasanaeth fyw ar gyfer Credyd Cynhwysol. Rhoddwyd mesurau ar waith i gwblhau'r broses erbyn mis Mawrth 2019. |
| Parhau â rhaglen archwiliadau mynediad cwsmeriaid y gwasanaethau tai a diogelu'r cyhoedd i sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch i bawb | Cwblhau bob 2 flynedd, o 2017 ymlaen | **Wedi'i gwblhau:**<br>Archwiliadau wedi'u cwblhau a'u hadolygu ym mis Tachwedd 2017. |
| Ymgorffori'r holl faterion cydraddoldeb perthnasol yn y Strategaeth Tai Lleol (STLl) newydd. | 2016 | **Wedi'i gwblhau:**<br>Cafodd pob mater cydraddoldeb ei gynnwys mewn pennod benodol yn yr STLl. Cymeradwywyd y strategaeth gan y cyngor yn 2016 a bydd yn para tan 2020.<br>Hefyd yn 2016, diweddarodd yr awdurdod ei Asesiad o Anghenion Sipsiwn a Theithwyr gan gyflwyno'r canlyniadau i Lywodraeth Cymru. Defnyddiwyd y canlyniadau hefyd i gyfeirio Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yr awdurdod. |
| Cynyddu ymwybyddiaeth o argaeledd Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, yn enwedig o ran plant a phobl ifanc anabl | 2016 | **Wedi'i gwblhau:**<br>Rydym wedi hyrwyddo'n eang drwy amrywiaeth o gyfryngau, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, gwefannau a |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| | | gwybodaeth gyhoeddedig, megis posteri a phamffledi a ddosbarthom i feddygfeydd lleol yn ogystal â thrwy bartneriaid allweddol. |
| Llunio strategaeth fel rhan o'r prosiect Mwy o Gartrefi ar gyfer defnyddio adnoddau'r Cyfrif Refeniw Tai i ddarparu mwy o dai cyngor, a fydd yn helpu i ddiwallu anghenion cymuned amrywiol | 2016 | **Wedi'i gwblhau:**<br>Cyflwynwyd y strategaeth i'r cyngor llawn ym mis Tachwedd 2016 ac fe'i cymeradwywyd ganddo. |
| Darparu trefniadau claddu/amlosgi yn unol â gofynion cymuned amrywiol Abertawe | Yn cael ei fonitro'n fisol | **Ar waith:**<br>Ychydig iawn o alw. Parhaus ac yn cael ei fonitro'n fisol |
| Datblygu protocol ar gyfer archwilio anheddau y cynigir eu defnyddio fel llety i geiswyr lloches | 2016 | **Wedi'i gwblhau:**<br>Mae protocol yn ei le ac mae'n cael ei ddilyn |
| **Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** | | |
| Parhau i adolygu gorsafoedd pleidleisio, gan geisio'u gwella i sicrhau profiad cadarnhaol i'r pleidleisiwr | Etholiadau: Mai 2016 a Mai 2017 | **Wedi'i gwblhau:**<br>Bob 4 blynedd, ceir adolygiad o Ddosbarthiadau Etholiadol/Orsafoedd Pleidleisio y disgwylir ei gynnal ar ddiwedd y flwyddyn. Yn ystod yr etholiadau y llynedd, rhoddwyd ystyriaeth i fynediad cyhoeddus yn unol â'n dyletswyddau etholiadol/arweiniad y Comisiwn Etholiadol. Lle'r oedd gwelliannau i fynediad yn ofynnol, ymdriniwyd â'r rhain. |
| **Gwasanaethau Diwylliannol** | | |
| Parhau â'r prosiect mewn llyfrgelloedd i gyflwyno neu wella sgiliau cyfrifiadurol pobl o bob oed | 2016 ac yn parhau | **Ar waith:**<br>Rydym yn parhau i ddarparu cyfleoedd am gynhwysiad digidol ac yn gweithio gyda phartneriaid i gyflwyno cyfleoedd llythrennedd digidol i bobl dros 50 oed. |
| Ystyried dod o hyd i gymhorthion cyfrifiadurol ychwanegol/gwell ar gyfer nam ar y golwg a'u rhoi ar waith mewn llyfrgelloedd | 2016 | **Ar waith:**<br>Ar hyn o bryd, rydym yn ystyried adnewyddu trwyddedau Zoomtext ar gyfer cyfrifiaduron sy'n cael eu diweddaru i Windows 10. |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| | | Rhoddodd cyllid grant diweddar yn Llyfrgell Townhill y cyfle i ni brynu bysellfwrdd bysellau mawr ychwanegol. |
| Parhau â'r amrywiaeth o weithgareddau sy'n mynd ag Amgueddfa Abertawe i bobl hŷn a grwpiau | 2016 | **Ar waith:**<br>Sgyrsiau allgymorth:<br>Mae'r amgueddfa'n parhau i ddarparu sgyrsiau i amrywiaeth eang o grwpiau cymunedol, canolfannau dydd, grwpiau cefnogi dementia ac unedau preswyl. Y tair sgwrs fwyaf poblogaidd o hyd yw Blitz Abertawe, Rheilffordd y Mwmbwls a Hanes a Thrysorau Amgueddfa Abertawe. Mae ychydig o sgyrsiau dewisol eraill ar gael.<br><br>Cyflwynwyd 30 o sesiynau allgymorth i gyfanswm o 1,268 o bobl.<br><br>Amcangyfrifir bod dros 95% o bobl sy’n cymryd rhan yn 55+ oed, gyda'r mwyafrif ohonynt dros 70 oed.<br><br>Gellir amrywio hyd y sgyrsiau gan ddibynnu ar y grŵp ac yn bennaf eu nod yw rhannu atgofion o'r gorffennol yn hytrach nag archwilio hanes mewn manylder.<br><br>Blychau Atgofion:<br>Mae blychau atgofion yn cael eu creu mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Llyfrgelloedd.<br><br>Mae blychau atgofion yn parhau'n boblogaidd ac i gael eu defnyddio er bod eu dosbarthu a'u dychwelyd yn gallu bod yn broblemus weithiau. Mae cofnodi rhifau hefyd yn anodd er |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| | | gwaethaf y ffaith bod gorchuddion y blychau’n gofyn yn glir i bobl lenwi'r niferoedd defnyddio yn y llyfr cofnodi amgaeëdig.<br><br>Mae gan y blychau themâu neu cânt eu rhannu fesul degawd ac maent yn cynnwys gwrthrychau a gyfrannwyd nad oes eu hangen ar gyfer y casgliad ac y darparwyd caniatâd at ddibenion addysgol ar eu cyfer, neu prynir nwyddau ar eBay neu mewn gwerthiannau cist car o bryd i'w gilydd.<br><br>Gwirfoddoli:<br>Mae Amgueddfa Abertawe'n parhau i gynnig cyfleoedd gwirfoddoli i bob grŵp oedran, fodd bynnag mae mwyafrif y gwirfoddolwyr yn 55+ oed ac mae sawl gwirfoddolwr yn ei 80au.<br><br>Ar hyn o bryd mae gan yr amgueddfa tua 50 o wirfoddolwyr wedi'u rhestru ar amrywiaeth o dasgau a phrosiectau gan gynnwys ymchwil, dogfennu, cynorthwywyr oriel, tywysyddion teithiau a chriw'r Olga. Mae'r rhan fwyaf o'r gwirfoddolwyr yn unigolion a gysylltodd â’r amgueddfa'n uniongyrchol. Mae Amgueddfa Abertawe hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â CGGA, RISW, Cyfeillion Gwaith Copr yr Hafod-Morfa ac U3A mewn perthynas â chyfleoedd gwirfoddoli.<br><br>Cofnodwyd cyfanswm o 3,125 o oriau gan wirfoddolwyr yn 2017 sydd gyfwerth ag oddeutu 2.1 aelod o staff amser llawn. |
| Archwilio hanes a threftadaeth y gymuned LGBT fel opsiwn ar gyfer rhaglen yr amgueddfa | 2018 | **Ar waith:**<br>Bu trafodaethau ag Unity a phartneriaid eraill ar brosiect na chafodd ei gyflwyno. |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| | | Fodd bynnag, cynhaliwyd ymgynghoriad â Good Vibes, y Fforwm Ieuenctid LGBT, ynglŷn â chais sylweddol i Gronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) i ddathlu 150 mlynedd ers sefydlu YMCA Abertawe a fyddai'n dechrau yn 2018. Nodwyd ychydig o weithgareddau ar gyfer y cais cyffredinol gan gynnwys archwilio'r iaith Polari a phroms 'dod allan'.<br><br>Yn ystod yr ymgynghoriad soniwyd am y ffaith bod 2017 yn nodi 50 mlynedd ers y ddeddf ym 1967 a oedd yn gyfrifol am ddad-droseddoli gwrwgydiaeth i bob pwrpas. Yn anffodus, nid ymchwiliwyd ymhellach i'r syniad am brosiect i ddathlu hynny trwy gais Young Roots gan fod y YMCA a'r amgueddfa eisoes yn datblygu ceisiadau i CDL gyda Young Roots. Fodd bynnag, efallai y caiff y syniadau hyn eu datblygu dan y cynllun gweithgareddau cyffredinol ar gyfer cais YMCA neu gais Young Roots posib yn y dyfodol.<br><br>Yn yr hydref, bydd arddangosfa sylweddol ar y bleidlais i fenywod yn Abertawe. Rydym yn aros i ganlyniadau grantiau LICC i grwpiau cymunedol gael eu cyhoeddi. Os oes unrhyw un o'r grwpiau LGBT lleol wedi ennill grant, ystyrir ymagwedd i ymchwilio i'r syniad o ymgorffori un o'r prosiectau yn yr arddangosfa. |
| Ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb yn Oriel Glynn Vivian, gan weithio gyda grwpiau megis plant a phobl ifanc, pobl anabl, cymunedau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig ac LGBT | 2018 – a pharhau i'w fonitro | **Ar waith:**<br>Rhaglenni dysgu a chynnwys:<br>Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi parhau i gynnig amrywiaeth o weithgareddau i bobl ddiamddiffyn, gan gynnwys:<br><br>• Art Baba's – i rieni ifanc a gofalwyr |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| | | • Gweithdai galw heibio ar ddydd Sadwrn i deuluoedd - gweithdai galw heibio agored i'r gymuned<br>• Gweithdai ar ddydd Sadwrn i deuluoedd y gellir cadw lle ar eu cyfer – gweithdai rhwng y cenedlaethau i blant 4-12 oed<br>• Byddin Gelf yr Ifanc – dosbarthiadau celf achrededig i bobl ifanc NEET a phlant a addysgir yn y cartref<br>• Gweithdai i bobl â nam ar y golwg ac/neu anghenion arbennig drwy ganolfannau gwasanaethau dydd Abertawe<br>• Dosbarthiadau celf i oedolion ar ddydd Mercher – i bobl 55+ oed, gan gynnig gweithdai cymdeithasol hygyrch i bobl hŷn.<br>• Gweithdai a theithiau i geiswyr lloches a ffoaduriaid. Ad-delir costau teithio.<br><br>Rydym hefyd wedi treialu ffilmiau ar gyfer pobl LGBT ac wedi ceisio cynnal prosiect creu ffilmiau gyda gwobr ffilmiau LGBT IRIS, sydd yng Nghaerdydd, ond bu rhaid ei ganslo oherwydd diffyg diddordeb.<br><br>Buom yn gweithio gyda Gentle/Radical ar eu clybiau ffilm WOW ar gyfer menywod lliw.<br><br>Arddangosfeydd: Cyflwynom hefyd ein harddangosfa Abertawe Agored sy'n cynnwys pawb sy'n byw neu'n gweithio yn y ddinas. Dilynwyd hyn gan arddangosfa o'r enw Mae Gan y Dyfroedd Hyn Straeon i'w Hadrodd, gydag artistiaid o Ganada, Mawrisiws, Awstralia, Estonia, Cyprus a Chymru. |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| | | Dehongliad: Mae ein holl gyhoeddiadau a hyrwyddiadau'n ddwyieithog ac mae ein dehongliad yn cynnwys ap a thröwr tudalennau i bobl sydd â nam ar y golwg neu'r clyw, gyda labeli ar gael mewn print mawr, a gaiff eu gosod ar iPads yn fuan. Mae gennym ni hefyd systemau disgrifio i bobl ddall ar gyfer gweithiau celf dethol. |
| Parhau i gyflwyno Cynllun Gweithgareddau Canolfan Dylan Thomas a ariennir trwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri.<br><br>**Diwygio cam gweithredu ar gyfer 2018 ymlaen:**<br>Yn dilyn cwblhau prosiect CDL llwyddiannus Canolfan Dylan Thomas (a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2018), parhau i gyflwyno'r amrywiaeth o weithgareddau sy'n seiliedig ar gydraddoldebau a ddatblygwyd trwy gydol y prosiect, ac adeiladu arnynt yn unol â Blaenoriaethau Corfforaethol. | 2017 | **Wedi'i gwblhau:**<br>Daeth elfen weithgarwch prosiect Canolfan Dylan Thomas a ariannwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri i ben ym mis Mawrth 2018.<br>Bydd yr arddangosfa a'r gwaith etifeddiaeth yn parhau. |

| |
|---|
| **Amcan Cydraddoldeb 2 – Ymgymryd ag amrywiaeth o waith sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch, gan gynnwys troseddau casineb, caethwasiaeth fodern, diogelu pobl ddiamddiffyn, radicaleiddio ac eithafiaeth etc.** |
| **Cyswllt â'r Blaenoriaethau Corfforaethol: Diogelu Pobl Ddiamddiffyn** |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| **Tlodi a'i Atal** | | |
| Datblygu Strategaeth Troseddau Casineb | Mawrth 2017 gyda monitro | **Ar waith:**<br>• Sefydlwyd Cynllun Gweithredu Rhanddeiliaid Troseddau Casineb ac mae'n ddogfen ddeinamig. |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| Cynyddu dealltwriaeth o droseddau casineb ac ymwybyddiaeth o sut mae rhoi gwybod amdanynt ymhlith staff a phartneriaid allweddol | blynyddol wedi hynny | • Mae'r Grŵp Cynllunio Troseddau Casineb (TC) yn cwrdd bob chwarter.<br>• Adolygwyd cwrs e-ddysgu TC ac mae staff yn cael mynediad ato fel cwrs gorfodol (118 hyd at ddiwedd mis Chwefror 2018).<br>• Datblygwyd cwrs Hyfforddi'r Hyfforddwr gan Gymorth i Ddioddefwyr.<br>• Cydlynwyd a chynhaliwyd digwyddiadau yn ystod wythnos ymwybyddiaeth o TC - seminar TC i staff y cyngor oedd un.<br>• Bu'r cyngor yn craffu ar yr agenda TC ym mis Tachwedd 2017 ac roedd y canlyniad yn gadarnhaol.<br>• Cymorth i Ddioddefwyr sy'n arwain ar yr agenda hon fel a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. |
| Cynnal fframwaith ar gyfer cyflwyno ymyriadau Prevent a chefnogaeth i unigolion diamddiffyn sydd mewn perygl o gael eu denu i eithafiaeth dreisgar a/neu anhreisgar. | 2020 – gyda chynllun gweithredu sy'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n flynyddol | **Ar waith:**<br>• Cymryd rhan yng nghynllun peilot Dovetail y Swyddfa Gartref nes mis Hydref 2019<br>• Cydlynydd Channel yr awdurdod lleol yn rheoli'r llwyth achos<br>• Rheolwr Integreiddio a Phartneriaeth Cymunedol yn cadeirio'r Panel Channel<br>• Panel Channel amlasiantaeth yn cwrdd bob mis i drafod achosion<br>• Ymyriadau ar waith ar gyfer achosion presennol<br>• Cynllun Gweithredu Prevent 2017-20 wedi'i sefydlu a'i gynnal |
| Cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith staff a sefydliadau partner o gaethwasiaeth fodern a sut mae cyfeirio dioddefwyr | Mawrth 2017 gyda monitro blynyddol wedi hynny | **Ar waith:**<br>• Sesiynau caethwasiaeth fodern rheolaidd wedi'u cyflwyno ym Mae'r Gorllewin. Yn ystod y 12 mis diwethaf, aeth cyfanswm o 291 o bobl i'r sesiynau hyn. |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| | | • Cynhaliwyd sesiwn Hyfforddi'r Hyfforddwr yn Abertawe ar Gaethwasiaeth Fodern ac roedd 30 aelod o staff amlasiantaeth yn bresennol.<br>• Cynhaliwyd sesiwn ymatebwyr cyntaf ar gyfer cydweithwyr gweithwyr cymdeithasol Abertawe ac roedd 20 aelod o staff yn bresennol.<br>• Mae Gweithgor Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol Abertawe wrthi'n datblygu llwybr atgyfeirio mewnol a gaiff ei gwblhau'n fuan.<br>• Darlledodd gorsaf radio The Wave yn Abertawe gyfres o hysbysebion gwybodaeth ar Gaethwasiaeth Fodern yn ystod yr Wythnos Ddiogelu ym mis Tachwedd.<br>• Mae'r Cydlynydd yn cynorthwyo cydweithwyr caffael ar hyn o bryd i ddatblygu siart llif côd ymarfer a phrif ffrydio pryderon caethwasiaeth fodern yn y gadwyn gyflenwi.<br>• Mae'r Cydlynydd Cydlyniant yn darparu'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer Fforwm Gwrthgaethwasiaeth Bae'r Gorllewin ar hyn o bryd. |
| Parhau â rôl y Grŵp Teuluoedd a Chwarae Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Rhwydwaith Chwarae traws-sector o ran ymwybyddiaeth o droseddau casineb a dealltwriaeth o gaethwasiaeth fodern | 2019 – cyfrannu at yr Archwiliad o Ddigonolrwydd Chwarae | **Ar waith:**<br>Hwyluswyd sawl cyfle hyfforddiant gyda phresenoldeb da gan staff mewnol a phartneriaid allanol. |
| Sefydlu gweithgor i archwilio cyfleoedd mewn perthynas â hyder a diogelwch wrth fynd o le i le yn Ninas a Sir Abertawe | 2017 | **Ar waith:**<br>• Cynhaliwyd cyfarfodydd cychwynnol ag Uwch-reolwyr yn First Cymru. |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| | | • Cyfrannodd adborth cyhoeddus o ddigwyddiadau Heneiddio'n Dda a "Sgyrsiau Mawr" pobl ifanc at gynlluniau datblygu ar gyfer canol y ddinas. |
| **Tai a Diogelu'r Cyhoedd** | | |
| Adolygu'r Datganiad Polisi ar gyfer Trwyddedu o ran alcohol, adloniant a lluniaeth hwyr y nos, gan ystyried yn arbennig yr angen i sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn | Gorffennaf 2018 | **Ar waith:**<br>17-5-18 Cabinet i gymeradwyo cyhoeddi polisi wedi'i adolygu er mwyn ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad<br><br>Ymgynghoriad i ddod i ben ar 8-6-18<br><br>26-7-18 – Adrodd am ganlyniadau'r ymgynghoriad i'r cyngor ar gyfer mabwysiadu'r polisi wedi'i adolygu |
| Adolygu polisi'r cyngor o ran gamblo, gan ystyried yn arbennig yr angen i sicrhau bod plant a phobl sy'n agored i niwed yn cael eu hamddiffyn | Ionawr 2019 | Bydd yr adolygiad hwn yn datblygu'n fwy yn nes at y dyddiad cau. |
| Cynyddu ymwybyddiaeth o droseddau a thwyll stepen drws i atal pobl hŷn rhag bod yn ddioddefwyr | 2016 a chynhelir ymgyrchoedd parhaus | **Ar waith:**<br>Parhau i weithio gyda grwpiau cymunedol a chynnal ymweliadau i gynyddu ymwybyddiaeth o weithredoedd twyllodrus a throseddau stepen drws |
| Darparu hyfforddiant a chynyddu ymwybyddiaeth, gydag asiantaethau cefnogi, wrth nodi gweithredu twyllodrus | 2016 a chynhelir hyfforddiant parhaus | **Ar waith:**<br>Hyfforddiant parhaus i staff mewnol ac asiantaethau allanol i sicrhau y gallant gynorthwyo cwsmeriaid i adnabod gweithredoedd twyllodrus a gwybod sut i adrodd amdanynt. |
| **Priffyrdd a chludiant** | | |
| Cynnal prosiect Llwybrau Diogel mewn Cymunedau (SRIC) gydag ysgolion | Bob blwyddyn | **Ar waith:**<br>Cwblhawyd SRIC yn llwyddiannus ar gyfer St Thomas yn 2017/18. Sicrhawyd cyllid ychwanegol ar gyfer SRIC Gŵyr yn 2018/19. |

| Amcan Cydraddoldeb 3 – Datblygu ymagwedd cyngor cyfan at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) i fodloni'n hymrwymiadau a nodwyd yn y Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc |
|---|
| **Cyswllt â'r Blaenoriaethau Corfforaethol: Diogelu Pobl Ddiamddiffyn** |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| **Camau Gweithredu Corfforaethol** | | |
| Cynyddu gwybodaeth am CCUHP a dealltwriaeth ohono trwy sicrhau bod yr holl staff yn mynd i hyfforddiant corfforaethol CCUHP ac yn cyfranogi ynddo | 2017 | **Ar waith:**<br>Plant a Theuluoedd:<br>Anogwyd staff i fynd ar hyfforddiant ac mae cofrestr o bobl sy'n cymryd rhan bellach ar waith a chynigir hyfforddiant dilynol i sicrhau y bydd 100% yn cydymffurfio.<br>Cynhaliwyd cyflwyniadau mewn cyfarfodydd UDRh a chyfarfodydd tîm ar draws y gwasanaeth.<br><br>Addysg:<br>Anogir yr holl staff i fynd ar hyfforddiant corfforaethol CCUHP a chyfranogi ynddo.<br><br>Priffyrdd:<br>Hyfforddiant diogelu plant yn cael ei gynnal gan y gwasanaeth llawn – parhaus<br><br>Gwasanaethau Adeiladau ac Eiddo Corfforaethol (GAEC):<br>Mae pob gweithiwr yn y GAEC wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelu ac mae CCUHP yn rhan allweddol o'r hyfforddiant hwn.<br><br>Tlodi a'i Atal: |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| | | Mae gofyn bod prosiectau a ariennir gyda chefnogaeth y gronfa PPI yn profi sut mae plant a phobl ifanc yn rhan o waith cynllunio a chyflwyno gwasanaethau, yn unol â CCUHP.<br><br>Cynigir cyfleoedd datblygu'r gweithlu gan y Tîm Cyfnodau Bywyd trwy raglenni hyfforddiant Tlodi a'i Atal, Addysg a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.<br>• Darperir hyfforddiant CCUHP i gynghorwyr newydd ar ôl cwblhau'r cyfnod sefydlu.<br>• Cynigir cyfleoedd datblygu'r gweithlu wedi'u teilwra gan y Tîm Cyfnodau Bywyd ar gais ac yn ôl yr angen. |
| Hyrwyddo CCUHP a chynyddu ymwybyddiaeth ohono trwy sefydlu hawliau plant mewn arfer beunyddiol a defnyddio'r logo Hawliau Plant yn yr holl weithgarwch hyrwyddo | 2017 | **Ar waith:**<br>Plant a Theuluoedd:<br>Cyflawnir hyn mewn arfer o ddydd i ddydd drwy'r fframwaith arfer SOS.<br><br>Addysg:<br>Mae'r Adran Addysg yn hyrwyddo ac yn cynyddu ymwybyddiaeth o CCUHP ar bob cyfle.<br><br>Priffyrdd:<br>Mae Llwybrau Diogel mewn Cymunedau a Llwybrau Cerdded i Ysgolion yn sicrhau bod hawliau plant yn cael eu hystyried – parhaus<br><br>Cyfreithiol:<br>Ystyrir hawliau plant gan swyddogion yr adrannau Cyfreithiol a Mynediad at Wasanaethau yn ystod y cylch cymeradwyo adroddiadau ac yn y broses benderfynu. |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| | | GAEC:<br>Mae ymwybyddiaeth o ddiogelu a diweddariadau am y maes yn eitem reolaidd ar sesiynau briffio timau misol a gynhelir gyda phob gweithiwr.<br><br>Tlodi a'i Atal:<br>Mae'r Tîm Chwarae i Blant yn cynnwys 'Dilly' ym mhob darn perthnasol o gyhoeddusrwydd a gwybodaeth ac yn cyfrannu at ddigwyddiadau ymwybyddiaeth o CCUHP, yn enwedig Diwrnod Rhyngwladol Hawliau Plant (20 Tachwedd).<br>Rhennir gwybodaeth sylw priodol am CCUHP gan y Tîm Chwarae i Blant ar bob cyfle i gefnogi ymwybyddiaeth a chyfrifoldeb ar draws adrannau ac ymhlith aelodau.<br><br>Defnydd parhaus o 'Dilly', y logo hawliau plant:<br>• Caiff baner Dilly ei chwifio yn ystod cyfnodau cynlluniedig o adeilad y Ganolfan Ddinesig<br>• Mae #DillyrDdraig a #DillyDragon yn gysylltiedig â'r tudalennau Facebook a Twitter corfforaethol<br>• Dosbarthwyd deunyddiau hyrwyddol fel pinnau ysgrifennu, clustffonau, poteli dŵr, posteri a bathodynnau<br>• Defnydd cyson o wisg Dilly ar gyfer staff mewn digwyddiadau cyhoeddus. Mae partneriaid wedi cysylltu darnau o waith a CCUHP â gwaith Dilly. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo Dilly fel a ganlyn:<br>• Ar blaciau ac arwyddion Ysgolion Chwareus<br>• Ar arwyddion traethau di-fwg a gatiau ysgol di-fwg<br>• Trwy gydol ymgyrch Dechrau Gorau<br>• Mewn pyst rheolaidd ar ffrwd Twitter 'Awr Hawliau' y Comisiynydd Plant |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| | | Digidol a thrawsnewid:<br>Dyma'r polisi diogelu data plant a phobl ifanc diweddar fel enghraifft o'n gwaith parhaus i hyrwyddo hawliau plant yn weithredol – www.abertawe.gov.uk/preifatrwyddpoblifanc |
| Sicrhau cyfleoedd o safon ar gyfer llais plant a phobl ifanc mewn datblygiadau polisi/gwasanaeth sy'n effeithio arnynt | Parhaol gyda monitro blynyddol | **Ar waith:**<br>Plant a Theuluoedd:<br>Strategaeth Cyfranogiad y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar waith – Ebrill 2018<br><br>Addysg:<br>Mae'r Adran Addysg yn sicrhau y clywir llais plant a phobl ifanc gyda phob datblygiad polisi a gwasanaeth pwysig gan ddefnyddio Fforwm Llais y Disgybl, y Sgwrs Fawr, Cynghorau Ysgol a chyfarfodydd ymgynghori penodol ar gyfer disgyblion.<br><br>Gwasanaethau i Oedolion:<br>Mae Strategaeth Gofalwyr yn y broses o gael ei datblygu; bydd hon yn adlewyrchu barn gofalwyr ifanc.<br><br>Priffyrdd:<br>Ymgynghorwyd â phlant ynghylch Llwybrau Diogel mewn Cymunedau a Llwybrau Cerdded i'r Ysgol – Parhaus – gan arwain at gais llwyddiannus am gyllid grant SRIC ar gyfer Gŵyr yn 2018/19<br><br>GAEC: |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| | | Fe'u hystyrir bob tro. Enghraifft o hyn yw cyfranogaeth y gwasanaeth yn ein prosiect Rhagor o Gartrefi lle dyluniodd plant lleol bosteri diogelwch a gafodd eu harddangos ar y safle.<br><br>Tlodi a'i Atal:<br>Cafodd plant a phobl ifanc eu cynnwys yn y broses ymgynghori ar gyfer y Strategaethau Tlodi a'i Atal. Lluniwyd dogfennau hawdd eu darllen i gyd-fynd â'r dogfennau llawn a oedd yn cefnogi sesiynau Llais y Disgybl a gynhaliwyd yn ystod hydref 2017.<br><br>Ar gyfer yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, lluniwyd crynodeb i'r PPI a ddosbarthwyd drwy ysgolion ac wyneb yn wyneb sy'n esbonio pam mae dyletswydd i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol, beth oedd y canfyddiadau a'r hyn y byddwn yn ei wneud, gyda chyfle iddynt fynegi eu barn ynglŷn ag a ydyn ni'n gwneud digon yn eu tyb nhw a'r hyn yr hoffent ei weld.<br><br>Defnyddir prosesau ymgynghori ar bob cyfle o ran datblygiad unrhyw ardaloedd chwarae.<br><br>Ymgymerwyd â gwaith ymgynghori a chynnwys penodol gyda phlant cyn oed ysgol i nodi eu dyheadau a'u hanghenion fel rhan o'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant.<br><br>Gan mai eu prif gais oedd cyfleoedd chwarae (yn enwedig yn yr awyr agored), roedd hyn yn ffocws pwysig ar gyfer cyflwyno, ariannu a hyfforddi yn ystod 2017/18 gydag amrywiaeth eang o gyfleoedd newydd ar gael. |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| | | Cafodd 6,087 o blant a phobl ifanc y cyfle i fynegi eu barn drwy ddulliau'r Sgwrs Fawr a gydlynwyd gan y Tîm Cyfnodau Bywyd, gan gynnwys:<br>- Fforymau'r Sgwrs Fawr<br>- Fforymau Llais y Disgybl<br>- Fforymau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal<br>- Ymgynghoriadau penodol, megis yr ymgynghoriad ar yr asesiadau o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae a gofal plant<br>- Pleidleisio yn Senedd Ieuenctid y DU<br>- Arolwg Mawr PPI<br><br>Gwasanaethau Diwylliannol:<br>Adolygwyd yr AEC cyffredinol ar gyfer Amgueddfa Abertawe yn 2015 i roi ystyriaeth i "sylw priodol" i CCUHP. Mae prosiectau parhaus, megis Plant mewn Amgueddfeydd, y Prosiect Rhannu Trysorau a'r rhaglen addysg yn ei chyfanrwydd, yn parhau i gynnwys plant a phobl ifanc a glustnodir.<br><br>Cyflwynwyd cynnig i LICC ar gyfer ailddatblygu oriel arddangos dros dro yn oriel barhaol unwaith eto ar gyfer astudiaethau natur a gwyddoniaeth. Os sicrheir cyllid, mae'r cynnig yn cynnwys elfen bwysig ar gyfer ymgynghori â phobl ifanc, ysgolion a grwpiau cymunedol. Os na sicrheir cyllid, cynhelir ymgynghoriad ar raddfa lai. |
| | | |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| **Tlodi a'i Atal** | | |
| Parhau i sefydlu hawliau plant ym mhob arfer a gweithdrefn yn yr adran a chyda sefydliadau partner a gomisiynir | 2017 | **Ar waith:**<br>Mae Safonau CCUHP wedi cael eu cynnwys yn y templed ar gyfer pob Contract Gofal Cymdeithasol yn 18/19.<br><br>Mae hawliau plant wedi'u cynnwys yn y cynlluniau corfforaethol canlynol:<br><br>• Cynllun Cydraddoldeb Strategol<br>• Adrodd y Gwasanaethau Democrataidd<br>• Cynllunio Brys ar gyfer Iechyd a Diogelwch<br>• Cynlluniau Dinas Diwylliant<br>• Cynlluniau Ailddatblygu Canol y Ddinas<br>• Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol ar gyfer Ysgolion<br>• Strategaeth Magu Plant Corfforaethol<br>• Strategaeth Blynyddoedd Cynnar Abertawe<br>• Cynllun Cyn Oed Ysgol Iach a Chynaliadwy<br>• Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae<br>• Cynlluniau'r Gwasanaeth Pobl Ifanc<br>• Cynllun Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc<br>• Cynllun Lles Abertawe |
| Cynyddu ymwybyddiaeth o ddulliau'r "Sgwrs Fawr", gan sicrhau bod plant a phobl ifanc yn deall yr amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed | 2017 | **Ar waith:**<br>Mae cynnydd cyson yn nifer y cyfranogwyr yn y Sgwrs Fawr wedi parhau gyda 2,399 o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgarwch fforwm wyneb yn wyneb.<br>• Cafodd cyfleoedd newydd i estyn ystod oedran y Sgwrs Fawr eu cynllunio a'u hyrwyddo. |
| Datblygu strategaeth gyfathrebu a chynllun ymgyrch a chyflwyno'r amcanion allweddol ar draws Abertawe gyfan | 2016 | **Wedi'i gwblhau:** |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| | | Datblygwyd Strategaeth Cyfathrebu i hyrwyddo hawliau plant fel uchod, ac yn unol â'r Tîm Cysylltiadau Corfforaethol a Chynnwys. |
| Sefydlu gweithgor i archwilio materion ynghylch ystrydebau rhywedd | 2017 | **Wedi'i gwblhau:**<br>• Cynhaliwyd seminar Ystrydebau Rhywedd ar 12 Hydref 2017 gyda thros 60 o gydweithwyr o bob rhan o'r awdurdod yn bresennol i glywed sgyrsiau gan Stonewall Cymru a Phrifysgol Abertawe a oedd yn ymwneud ag effaith ystrydebau rhywedd ar blant a phobl ifanc.<br>• Cynhaliwyd Fforwm Llais y Disgybl ar 31 Ionawr 2018 i archwilio materion ynghylch hunaniaeth a chydraddoldeb ac i hyrwyddo cynhwysiad mewn ysgolion. Roedd 30 o ddisgyblion cynradd/uwchradd 10-18 oed yn bresennol (7 ysgol uwchradd a 6 ysgol gynradd).<br>• Cefnogwyd sgwrs ar Gydraddoldeb rhwng y Rhywiau ar 8 Mawrth 2018 ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Merched gydag 20 o gydweithwyr yn bresennol.<br>• Cynhaliwyd Sgwrs Fawr am Gydraddoldeb Rhwng y Rhywiau ar 18 Mai 2018 gyda 72 o ddisgyblion o 9 ysgol gyfun yng Nghlwb Ieuenctid Gorseinon i ystyried yr effaith, ymchwilio i atebion ac ystyried sut gallai ysgolion fynd i'r afael â'r materion a godwyd. |

| **Amcan Cydraddoldeb 4 – Parhau i wella darpariaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol yn y Gwasanaethau i Oedolion a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, gan sicrhau bod anghenion y defnyddiwr gwasanaeth yn ganolog i'r holl weithgareddau cynllunio a chomisiynu** |
|---|
| **Cyswllt â'r Blaenoriaethau Corfforaethol: Diogelu Pobl Ddiamddiffyn** |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| **Gwasanaethau Plant a Theuluoedd** | | |
| Datblygu ymhellach ein gwasanaeth drws blaen yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i alluogi mynediad cyfartal at wybodaeth, cyngor a chymorth ynghylch y gwasanaethau statudol a'r sector ataliol | 2016 | **Ar waith:**<br>Cynhelir adolygiad Vanguard Systems ym mis Gorffennaf 2018. |
| Datblygu gwasanaeth i bobl sy'n cam-drin yn y cartref sy'n cynnwys gwaith un i un a gwaith grŵp, wedi'i lywio gan adborth defnyddwyr gwasanaeth, sy'n cefnogi'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud gyda menywod a phlant lle mae trais yn y cartref yn nodwedd o'u bywydau | 2016 | **Wedi'i gwblhau:**<br>Cwblhawyd yn 2016 gyda datblygiad y Ganolfan Trais Domestig. |
| Rhoi'r Cynnig Gweithredol o Drefniad Eiriolaeth ar waith i helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael mynediad at gefnogaeth ychwanegol i gael llais yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt | 2016 | **Wedi'i gwblhau:**<br>Ar waith o fis Ebrill 2017. |
| Datblygu a chyflwyno trefniadau adolygu plant sy'n derbyn gofal i alluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan arweiniol yn eu hadolygiadau | 2017 | **Ar waith:**<br>Rhan o'r Strategaeth Cyfranogiad. |
| Datblygu methodoleg Signs of Safety ymhellach yn y timau gwaith cymdeithasol, | 2017 | **Wedi'i gwblhau:** |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| a'i rhoi ar waith. Model yw hwn sy'n seiliedig ar gryfderau sy'n hyrwyddo llais y plentyn, yn cynnwys ei deulu a rhwydweithiau ehangach wrth gynllunio ar gyfer diogelwch ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau. | | Strategaeth Gweithredu SOS ar waith ac fe'i hadolygir yn flynyddol. Roedd adolygiad diweddar (Ebrill 2018) gan Fwrdd Diogelu Plant Bae'r Gorllewin yn cydnabod effaith SOS yn y maes hwn. |
| Datblygu Strategaeth Anableddau Plant gan ymgynghori â phlant, pobl ifanc, teuluoedd, partneriaid amlasiantaeth a'r trydydd sector i sicrhau y gall plant anabl a'u teuluoedd gael mynediad at amrywiaeth o ddarpariaeth ar draws y continwwm angen - a chael mynediad at y cyfle/gwasanaeth cywir o'r man cywir ar yr adeg gywir | 2017 | **Ar waith:**<br>Mae'r gwaith hwn yn dod dan y Grŵp Continwwm Cymorth i Deuluoedd ac mae'n cael ei ddatblygu gyda chydweithrediad gan y Gwasanaeth Addysg a Thlodi a'i Atal. Mae effaith y Bil ADY newydd a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn cael ei hystyried. |
| Datblygu gwasanaeth gadael gofal mewn partneriaeth â darparwr trydydd sector. Ffurf derfynol y gwasanaeth newydd i'w chyfeirio gan farn partneriaid a phobl ifanc | 2016 | **Wedi'i gwblhau:**<br>Cwblhawyd yn 2016. |
| Datblygu fframwaith cefnogi ac adolygu cynhwysfawr i'r holl unigolion y dyfernir Gorchymyn Gwarcheidwaeth Arbennig iddynt. Gwasanaethau i gynnwys cyfleoedd hyfforddi i ofalwyr, grwpiau ar gyfer pobl ifanc a chyngor a chymorth cyffredinol trwy dîm penodol | 2016 | **Wedi'i gwblhau:**<br>Cwblhawyd yn 2016. |
| Yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), llunio polisi a gweithdrefnau ar gyfer cynllun 'Pan Fydda i'n Barod' Abertawe yn unol ag Arweiniad Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn galluogi mwy o bobl ifanc i aros gyda'u | 2016 | **Wedi'i gwblhau:**<br>Cwblhawyd yn 2016. |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| gofalwyr maeth y tu hwnt i ddeunaw oed a nes iddynt fod yn barod am annibyniaeth | | |
| Llunio Strategaeth Anabledd i Blant wedi'i diweddaru'n unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru). Bydd hyn yn golygu cynnwys rhieni a gofalwyr yn fwy wrth gynllunio gofal trwy ddefnyddio pecynnau Taliad Uniongyrchol yn fwy | 2016 | **Wedi'i gwblhau:**<br>Cwblhawyd yn 2016. |
| Cynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol ymhellach wrth ddarparu cefnogaeth i blant y mae angen cefnogaeth therapiwtig arnynt trwy<br>• aelodaeth barhaus a gweithgar gan Bennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn y Grŵp Cynllunio Iechyd Meddwl<br>• datblygu pecynnau cefnogaeth therapiwtig i blant, teuluoedd ac oedolion arwyddocaol gan y Tîm Therapi Mewnol a sefydlwyd yn ddiweddar | 2016 | **Wedi'i gwblhau:**<br>Yn ogystal, mae gwasanaeth MAPPS rhanbarthol gyda chefnogaeth Seicoleg Glinigol wedi cael ei sefydlu i gefnogi plant ag anghenion cymhleth. |
| **Gwasanaethau i Oedolion** | | |
| Datblygu mesurau diogelu ymhellach i oedolion diamddiffyn mewn ffordd fwy diogel, personol ac amserol | 2016 | **Ar waith:**<br>Cynhaliwyd adolygiad o'r ymagwedd at ddiogelu yn y Gwasanaethau i Oedolion. Daeth yr adolygiad hwn i'r casgliad bod angen ailgynllunio'r broses i ddarparu ymagwedd gyson ac i ymdrin â materion diogelu'n brydlon. Cynigir strwythur diwygiedig a bwriedir rhoi hwn ar waith yn 2018/19. Bydd hyn yn sicrhau bod yr ymagwedd at ddiogelu mor gadarn â phosib. |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| Gwella'r prosesau trefniadau diogelu rhag colli rhyddid (DoLS) | 2016 | **Ar waith:**<br>Crëwyd tîm DoLS penodol newydd. Mae'n rhy gynnar i fesur effaith y tîm hwn, ond disgwylir gwelliant sylweddol i berfformiad a chydymffurfiad gwell ag amserlenni statudol. Y bwriad yw y bydd y tîm hwn yn galluogi'r awdurdod i gydymffurfio'n llawn â'i rwymedigaethau statudol. |
| Adolygu integreiddio ag iechyd yn y tair canolfan gymunedol | 2016 | **Ar waith:**<br>Mae 3 canolfan integredig wedi cael eu sefydlu ers mis Ebrill 2015. Mae defnyddwyr gwasanaeth yn disgrifio gwasanaeth mwy cydlynol a thystiolaeth glir o ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y person. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwnaed gwaith sylweddol i gryfhau rôl y tîm amlddisgyblaeth o weithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion a nyrsys ardal yn y Pwynt Mynediad Cyffredin. Mae hyn yn sicrhau bod y rheiny sy'n defnyddio'r Pwynt Mynediad Cyffredin yn cael gwybodaeth a chyngor cyson ac o safon a bod nifer y bobl y mae angen cefnogaeth barhaus arnynt yn cael ei leihau yn unol â'u hanghenion. |
| Parhau i drawsnewid y Gwasanaethau i Oedolion er mwyn sicrhau gwasanaeth a gyfeirir gan ddinasyddion | 2016 | **Ar waith:**<br>• Mae Fframwaith Arfer Gwasanaethau i Oedolion bellach wedi'i ddatblygu ac mae hyfforddiant nawr yn cael ei gynnig i'r timau. Mae hyn yn annog ymarferwyr gwaith cymdeithasol a'r rheiny sy'n gyfrifol am asesu i gymryd agwedd sy'n canolbwyntio'n fwy ar y person ac ar ganlyniadau.<br>• Mae'r Gwasanaethau i Oedolion yn datblygu ei ymagwedd at gydgynhyrchu gwasanaethau. Mae enghreifftiau da dros y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys datblygu'r Fframwaith Byw â Chymorth a gydgynhyrchwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd/gofalwyr. |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| | | • Rydym yn parhau i ddatblygu ein gwasanaeth mewnol yn unol â dymuniadau ac anghenion y rheiny rydym yn gweithio gyda nhw. |
| Adolygu cynlluniau comisiynu'r Gwasanaethau i Oedolion ymhellach | 2016 | **Ar waith:**<br>• Mae'r Cabinet bellach wedi cytuno ar Strategaethau Comisiynu ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, anableddau corfforol, namau synhwyraidd a phryderon iechyd meddwl.<br>• Mae angen gwaith i edrych ar y Strategaethau Comisiynu ar gyfer Pobl Hŷn yn y dyfodol. |
| Caiff gwe-dudalennau eu diweddaru fel y bo'n briodol i wella mynediad at wybodaeth, cymorth a chyngor | 2017 | **Ar waith:**<br>Mae'r gwaith hwn yn parhau i gael ei wneud yn unol â'r gofynion sy'n ymwneud â gwybodaeth, cyngor a chymorth yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. |
| Datblygu fframwaith arfer gwaith cymdeithasol i oedolion. Mae angen i'r ymagwedd hon fod yn seiliedig ar gryfderau ac iddi ganolbwyntio ar ganlyniadau i hyrwyddo llais defnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach | 2017 | **Ar waith:**<br>Mae Fframwaith Arfer bellach wedi'i ddatblygu ac mae hyfforddiant yn cael ei gyflwyno i'r timau. Fel rhan o hyn, rydym yn cydgynhyrchu'r fformat asesu diwygiedig a llawlyfr i ddefnyddwyr gwasanaeth er mwyn eu harwain drwy'r broses asesu. |
| Datblygu ymhellach ein gwasanaeth drws blaen yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i alluogi mynediad hwylus at wybodaeth, cyngor a hefyd y gwasanaethau ataliol | 2017 | **Wedi'i gwblhau:**<br>• Mae pob cynorthwy-ydd gwybodaeth a chyngor wedi'i hyfforddi i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth yn ogystal â chyfeirio pobl i wasanaethau ataliol.<br>• Mae tîm amlddisgyblaeth llawn bellach ar gael yn y Pwynt Mynediad Cyffredin i gynnig gwybodaeth a chyngor.<br>• Datblygwyd ymagwedd gyffredin at wybodaeth, cyngor a chymorth ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn sicrhau cysondeb. |
| Parhau i gynyddu nifer y rhai sy'n derbyn taliad uniongyrchol fel ffordd o sicrhau bod | 2017 | **Ar waith:** |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| pobl ag anghenion gofal cymdeithasol cymwys yn gallu cael mynediad at wasanaethau sy'n addas ar gyfer eu hanghenion | | Mae'r nifer sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol yn cynyddu'n gyson ac mae gwaith pellach yn parhau i sicrhau bod y gwasanaeth cefnogi'n cael ei lunio i ddarparu cefnogaeth briodol. Mae gwaith pellach hefyd yn parhau i ystyried cyfraddau tâl ar gyfer Cynorthwywyr Cefnogi Byw'n Annibynnol i sicrhau y gallant gael eu recriwtio i gefnogi pobl. |
| Sicrhau bod y teclyn asesu presennol yn cydymffurfio ag argymhellion Llywodraeth Cymru wrth baratoi i roi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar waith | 2016 | **Ar waith:**<br>Dyluniwyd offeryn asesu fel ei fod yn cydymffurfio; cynllunnir datblygiadau pellach fel rhan o ddatblygiad y Fframwaith Arfer. |

| **Amcan Cydraddoldeb 5 – Gwella cyrhaeddiad disgyblion a pharhau i gau bylchau perfformiad** |
|---|
| **Cyswllt â'r Blaenoriaethau Corfforaethol:  Gwella cyrhaeddiad disgyblion** |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| **Addysg a Thlodi a'i Atal** | | |
| Mae plant a phobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn parhau i gyflawni o leiaf gystal â'u cyfoedion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 | Dadansoddiad blynyddol o ganlyniadau Cyfnod Allweddol 4 yn nhymor yr hydref. | **Ar waith:**<br>64.1% yn 2017 o'i gymharu â 57.7% ar gyfer disgyblion eraill. |
| Dysgwyr o gefndiroedd Bangladeshaidd/Asiaidd yn cyflawni o leiaf gystal â'u cyfoedion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 | Dadansoddiad blynyddol o ganlyniadau Cyfnod Allweddol 4 yn | **Ar waith:**<br>53.7% yn 2017 o'i gymharu â 57.7% ar gyfer disgyblion eraill. |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| | nhymor yr hydref. | |
| Cynnal tueddiadau gwella wrth asesu bechgyn a merched yng Nghyfnod Allweddol 2 (CA2) a Chyfnod Allweddol 3 (CA3) | Dadansoddiad blynyddol o ganlyniadau Cyfnod Allweddol 2 a 3 yn nhymor yr hydref. | **Ar waith:**<br>CA2: Mae canlyniadau bechgyn a merched wedi gwella dros bum mlynedd ac mae'r bwlch rhwng y rhywiau wedi lleihau ychydig.<br><br>CA3: Mae canlyniadau bechgyn a merched wedi gwella dros bum mlynedd, ond mae'r bwlch rhwng y rhywiau wedi cynyddu. |
| Cau'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched. | Dadansoddiad blynyddol o'r canlyniadau yn nhymor yr hydref. | **Ar waith:**<br>CA2: Roedd y bwlch rhwng y rhywiau yn -6.0% yn 2015, roedd wedi gwella i -4.1% yn 2017.<br><br>CA3: Roedd y bwlch rhwng y rhywiau yn -6.6% yn 2015, roedd wedi cynyddu i -8.5% yn 2017. |
| Cau'r bwlch perfformiad rhwng disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn eu derbyn | Dadansoddiad blynyddol o'r canlyniadau yn nhymor yr hydref. | **Ar waith:**<br>CA2: Tuedd ar i fyny dros bum mlynedd o ran canlyniadau disgyblion PYDd, ond mae disgyblion PYDd yn parhau i fod dros 16% yn is na disgyblion nad ydynt yn derbyn PYDd.<br><br>CA3: Tuedd ar i fyny gref i ddisgyblon PYDd, ond mae canlyniadau'n parhau i fod dros 18% yn is na disgyblion nad ydynt yn derbyn PYDd. |
| Lleihau anghydraddoldebau o ran pa mor barod yw plant i ddechrau’r ysgol | 2019 | **Ar waith:**<br>Bu'r rhaglen Dechrau'n Deg yn parhau i weithredu gyda'r proffil Cyfnod Sylfaen wedi'i addasu ar gyfer plant cyn oed ysgol ac offeryn sgrinio iaith a lleferydd Wellcomm yn cael ei ddefnyddio ym mhob lleoliad gofal plant. |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| | | Datblygu'r ymgyrch Dechrau Gorau ymhellach trwy gyfryngau cymdeithasol, posteri a digwyddiadau.<br><br>Atgyfnerthu'r prosiect Jig-so i gefnogi rhieni ifanc yn ystod 1,000 diwrnod cyntaf eu plentyn.<br><br>Cydweithredu â'r Bwrdd Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i hwyluso digwyddiad amlasiantaeth 1,000 diwrnod cyntaf i lywio cynllun gweithredu newydd. |

| **Amcan Cydraddoldeb 6 - Darparu cefnogaeth cydraddoldeb i ysgolion** |
|---|
| **Cyswllt â'r Blaenoriaethau Corfforaethol: Gwella cyrhaeddiad disgyblion** |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| Parhau â gwelliant cynyddol i fynediad at isadeiledd mewn ysgolion | Ffurflen flynyddol i Lywodraeth Cymru, Mawrth | **Ar waith:**<br>Cymeradwywyd cynnig y cyngor am gyllid Ysgolion yr 21ain ganrif (Band B) yn amodol ar gymeradwyo achosion busnes unigol. Bydd hyn yn parhau â'r gwelliant cynyddol i fynediad at isadeiledd mewn ysgolion. |
| Pobl ifanc o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn cael cynnig mynediad priodol at addysg uwchradd a chefnogaeth i achub ar y cyfleoedd hynny | 2017 gyda monitro tymhorol | **Ar waith:** Mae grŵp amlasiantaeth diwygiedig ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn goruchwylio'r gwaith hwn dan arweiniad Penaethiaid Gwasanaeth yn yr Adran Addysg. Cynhaliwyd rhagor o ymgynghoriadau eleni gyda gwaith pellach ar opsiynau gwasanaeth yn y dyfodol yn cael eu harchwilio gan y grŵp. |
| Lansio offeryn i gofnodi bwlio sy'n seiliedig ar hunaniaeth ar draws pob ysgol | Awst 2016, gyda dadansoddiad tymhorol | **Ar waith:**<br>Lansiwyd yr offeryn ond gydag ychydig o lwyddiant yn unig. Mae nifer helaeth o ysgolion bellach yn defnyddio meddalwedd o'r enw My Concern i gofnodi pob achos ynghylch diogelu. |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| | | Rydym yn hyrwyddo'r feddalwedd hon i ysgolion ac mae'r cyngor yn ystyried cael trosolwg trosgynnol o'r holl achosion. |
| Adolygu'r arweiniad i ysgolion ar Gynlluniau Cydraddoldeb Strategol a chyflwyno diweddariad i benaethiaid mewn cyfarfod tymhorol a thrwy gylchlythyr yr ysgol | 2016 | **Wedi'i gwblhau:**<br>Adolygwyd yr arweiniad a chyflwynwyd templed CCS diwygiedig i ysgolion ynghyd â thempled Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi'i deilwra. |
| Parhau â'r cytundeb contract ag UNICEF y DU i sefydlu'r Wobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau ym mhob ysgol yn Abertawe | 2017 | **Wedi'i gwblhau:**<br>Mae'r trefniadau cytundebol gydag UNICEF y DU wedi dod i ben yn 2017 gan fod pob ysgol naill ai wedi cyflawni lefel 1 neu'n gweithio tuag at y statws hwn. Mae cynllun cynaliadwy ar gyfer asesiad a arweinir gan gyfoedion wrthi'n cael ei ddatblygu i'w gyflwyno yn 18/19 er mwyn gallu cynnal statws gwobrau Ysgolion sy'n Parchu Hawliau ar gyfer y dyfodol. |
| Sicrhau bod ysgolion yn amddiffyn plant a phobl ifanc rhag cael eu denu i derfysgaeth trwy roi polisïau diogelu cadarn ar waith i nodi plant mewn perygl ac ymyrryd/eu cefnogi fel y bo'n briodol. | 2020 – gyda chynllun gweithredu sy'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n flynyddol | **Wedi'i gwblhau:**<br>• Proses atgyfeirio ar waith.<br>• Mae aelodau staff 87 o ysgolion (2,361 i gyd) wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth PREVENT.<br>• Cynghorwyd ysgolion i gynnwys PREVENT yn eu polisïau diogelu yn ystod yr hyfforddiant ymwybyddiaeth a darparwyd geiriad ar gais. |
| Sicrhau bod ysgolion yn cael eu cyfeirio i arweiniad perthnasol gan Lywodraeth Cymru fel y gellir arfer hyn mewn ysgolion, er enghraifft, darparu cwnsela, cyngor a gwybodaeth sy'n ymwneud yn benodol â chydraddoldeb ac unrhyw hyfforddiant perthnasol i staff, disgyblion a chyrff llywodraethu ysgolion | Wrth i arweiniad gael ei gyhoeddi | **Ar waith:**<br>Mae adran ar Staffnet i roi'r holl wybodaeth ddiweddaraf i ysgolion ac mae adran newydd yn cael ei chreu ar lwyfan cenedlaethol Hwb ar gyfer y dyfodol. |
| Datblygu a chyhoeddi arweiniad ar bobl drawsrywiol i ysgolion | 2017 | **Wedi'i gwblhau:** |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| | | Datblygwyd yr arweiniad gyda chefnogaeth Stonewall ac mae ar gael i bob ysgol. |
| Hyfforddiant Stonewall wedi'i gynnig i bob ysgol trwy Ein Rhanbarth ar Waith (ERW) | 2016 | **Wedi'i gwblhau:** Cynigiwyd hyfforddiant Stonewall drwy ERW a gall ysgolion barhau i gael cefnogaeth yn uniongyrchol gan Stonewall. |

| **Amcan Cydraddoldeb 7 – Darparu cyfleoedd trwy brentisiaethau a lleoliadau gwaith** |
|---|
| **Cyswllt â'r Blaenoriaethau Corfforaethol:  Gwella cyrhaeddiad disgyblion** |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| **Gwasanaethau Adeiladau ac Eiddo Corfforaethol (GAEC)** | | |
| Lleoliadau profiad gwaith – darparu cyfleoedd o safon i fyfyrwyr brofi'r gweithle go iawn. Galluogi myfyrwyr i ddeall a datblygu'r sgiliau angenrheidiol i'w galluogi i ddilyn y llwybr gyrfa o'u dewis | Parhaus – fel y trefnir lleoliadau | **Ar waith:** Rhoddwyd dros 45 wythnos o leoliadau profiad gwaith ar y safle gyda'r GAEC i bobl ifanc a oedd yn gadael yr ysgol. |
| Sicrhau bod yr holl recriwtio yn y dyfodol yn y GAEC yn parhau i gael ei wneud yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, gan roi sylw penodol i'r rhaglen recriwtio prentisiaid. Datblygu cysylltiadau â grwpiau/sefydliadau allanol ymhellach i alluogi ymwybyddiaeth ehangach o'r fenter a chefnogi'r GAEC. Bydd parhad y rhaglen recriwtio prentisiaid yn dibynnu ar gymeradwyaeth gyllidebol yn y dyfodol. | Bob blwyddyn | **Ar waith:** Byddwn yn recriwtio 18 prentis arall ym mis Medi 2018 gan godi'n cyfanswm i 198 dros y deng mlynedd diwethaf. Mae cysylltiadau â'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg i hyrwyddo'r rhaglen brentisiaeth yn parhau gyda chynnydd ardderchog yn cael ei wneud, yn enwedig gyda phlant sy'n derbyn gofal lle mae "teulu" Abertawe'n chwarae rhan bwysig yn yr hyn rydym yn ceisio'i gyflawni. |

| **Amcan Cydraddoldeb 8 – Gwella mynediad i'r isadeiledd o ran palmentydd, ffyrdd a darpariaeth barcio i bobl anabl a hŷn, yn ogystal â theuluoedd â phlant ifanc** |
|---|
| **Cyswllt â'r Blaenoriaethau Corfforaethol: Creu dinas ac economi lewyrchus a llawn addewid** |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| Rhoi'r Polisi Palmentydd i Bobl ar waith | Parhaus | **Ar waith:**<br>Mae'r cyngor yn parhau i sicrhau bod y safonau a amlinellir yn y polisi yn cael eu rhoi ar waith a'u dilyn. |
| Adolygu hygyrchedd celfi stryd, e.e. seddi | 2017 | **Ar waith:**<br>Mae'r adolygiad yn mynd rhagddo ac mae rhestr yn cael ei diweddaru. |
| Gosod cyrbau isel i hwyluso mynediad lle y bo angen | Fesul achos | **Ar waith:**<br>Mae bellach angen cyllid o gyllidebau cymunedol cynghorwyr ar gyfer gostwng cyrbau. |
| Sicrhau bod yr holl groesfannau newydd i gerddwyr yn cael eu dylunio i sicrhau diogelwch i bawb | Wrth i groesfannau newydd gael eu datblygu | **Ar waith:**<br>Parhaus ac yn cael ei wneud wrth i groesfannau newydd gael eu gosod . |
| Ystyried materion cydraddoldeb wrth lunio cynlluniau priffyrdd a thraffig. | Wrth i brosiectau gael eu llunio | **Ar waith:**<br>Cynhelir archwiliadau ansawdd ar gyfer cynlluniau sylweddol, sy'n ystyried materion cydraddoldeb fel rhan o'r broses ddylunio e.e. Ffordd y Brenin |
| Darparu hawlenni i sefydliadau gofal a gofalwyr cymwys barcio mewn safleoedd parcio preswylwyr. | Yn ôl yr angen | **Ar waith:**<br>Mae'r fenter hon yn cael ei chynnal o hyd |

| **Amcan Cydraddoldeb 9 - Gwella mynediad i fysus cyhoeddus i bobl anabl a phobl hŷn, yn ogystal â theuluoedd â phlant ifanc** |
|---|
| **Cyswllt â'r Blaenoriaethau Corfforaethol: Creu dinas ac economi lewyrchus a llawn addewid** |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| Hyrwyddo system REACT yr RNIB yn yr orsaf fysus ganolog i bobl â nam ar y golwg. Mae'r system yn rhoi negeseuon sain am y gwasanaethau a geir ym mhob parth gadael ac yn darparu offeryn dod o hyd i'r ffordd ar y cyd â'r stribed cyffyrddol a geir trwy neuadd yr orsaf. | Parhaus | **Ar waith:**<br>Nid yw'r RNIB yn cefnogi system ffob REACT mwyach felly mae ei ap ffôn clyfar arall yn cael ei archwilio fel opsiwn arall. |
| Parhau i roi rhaglen ar waith i ddarparu cyrbau uchel mewn safleoedd bysus i alluogi mynediad hwylus i bob teithiwr. Parhau i gynnwys grwpiau anabledd | Parhaus | **Ar waith:**<br>Darperir cyrbau uchel wrth ddiweddaru arosfannau bysus a hefyd fel rhan o gynlluniau gwella priffyrdd. |

| **Amcan Cydraddoldeb 10 – Sicrhau ein bod yn trechu effeithiau tlodi ac yn eu lliniaru** |
|---|
| **Cyswllt â'r Blaenoriaethau Corfforaethol: Mynd i'r afael â thlodi** |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| **Tlodi a'i Atal** | | |
| Trwy raglenni Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, cyflwyno amrywiaeth o wasanaethau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd i wella canlyniadau, trwy ymyriadau megis magu plant, iaith a chwarae etc. | Mawrth 2017 | **Ar waith:**<br>Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn parhau i ddatblygu ffyrdd newydd a blaengar o gyflwyno gwasanaethau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.<br>Yn 2017/18, cyfranogodd Teuluoedd yn Gyntaf mewn 6,499 o achosion a oedd yn cynnwys 12,031 o unigolion.<br>Mae Dechrau'n Deg yn parhau i ddarparu'r dechrau gorau mewn bywyd i blant yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig. |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| | | Yn 2017/18, gwnaeth 2,955 o blant elwa o'r rhaglen Dechrau'n Deg. Parhaodd cyfartaledd presenoldeb lleoliadau gofal plant i gyflawni ei darged, sef 80%. |
| Hyrwyddo a darparu amrywiaeth o gyfleoedd gwella sgiliau mewn modd amlasiantaeth er mwyn cyflawni gwasanaethau o safon trwy ymagwedd datblygu'r gweithlu.<br>Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno hyfforddiant am Gyfweld Ysgogiadol, y Tîm am y Teulu (TAT), Meddwl sy'n Canolbwyntio ar Atebion, etc. | Mawrth 2017 | **Ar waith:**<br>Darparwyd 699 o leoedd hyfforddiant i weithwyr proffesiynol ar 17 o bynciau gwahanol. |
| Nodi'r bobl ifanc hynny sydd yn y perygl mwyaf o fod yn NEET (heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) a rhoi cefnogaeth bersonol iddynt (a'u teuluoedd) y mae ei hangen arnynt i barhau i fod mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant | Hydref 2017 – ciplun blynyddol | **Ar waith:** Mae gwaith monitro ac olrhain amlasiantaeth cadarn yn parhau i fynd rhagddo yn unol â Chynllun Ymgysylltu a Datblygu’r awdurdod, dan oruchwyliaeth y Bwrdd NEET. |
| Parhau i ddefnyddio Asesiadau Effaith Cydraddoldeb Tlodi Plant (AECTP) ar gyfer chwarae | 2019 – cyfrannu at yr Archwiliad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae | **Ar waith:**<br>Mae'r Asesiadau Effaith yn parhau i gael eu defnyddio ar ddatblygiadau allweddol, gan gynnwys y Strategaeth Mannau Agored a gwaith i gynnwys cyfleoedd chwarae ym mhrosiectau datblygu canol y ddinas ym mannau cyhoeddus Abertawe Ganolog. |
| Cwmni Budd Cymunedol Tlodi Bwyd:<br>Creu menter fwyd i drechu tlodi bwyd a bwydo pobl yn dda yn Abertawe | 2017 | **Wedi'i gwblhau:**<br>Sefydlwyd cwmni menter bwyd ar 1 Ebrill 2018 a symudwyd hyn allan o'r awdurdod lleol i weithredu'n ymreolus, gan gysylltu â'r Fforwm Tlodi. |
| Cyflwyno amrywiaeth o wasanaethau drwy'r Rhaglenni Cymunedau am Waith a | Mawrth 2017 | **Ar waith:** |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| Chymunedau am Waith a Mwy, a thrwy glustnodi'r Gronfa Etifeddiaeth yn effeithiol i gefnogi pobl a theuluoedd yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig er mwyn gwella eu cyfleoedd a'u hannog i gyflawni eu potensial. | | Mae Cymunedau'n Gyntaf a rhaglen ESGYN wedi dod i ben yn raddol ledled Cymru yn ystod 2017/18. Mae proses drosglwyddo yn ystod y cyfnod hwn wedi ein galluogi i ddyrannu cyllid gan Lywodraeth Cymru yn llwyddiannus i gyflwyno'r rhaglen newydd Cymunedau am Waith a Mwy a chlustnodi cyllid o'r Gronfa Etifeddiaeth, nes mis Mawrth 2020 i ddechrau. Mae'r rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy yn darparu cefnogaeth ar gyfer cyflogaeth drwy fentora un i un dwys. Mae'r rhaglen hon yn gweithio ar y cyd â'r rhaglen Cymunedau am Waith, ond gall gefnogi pobl nad ydynt yn gymwys ar ei chyfer. Mae Cymunedau am Waith a Mwy felly'n cefnogi'r rheiny sy'n ddi-waith yn y tymor byr a'r rheiny sydd â swyddi ond sy'n dlawd. Mae Cymunedau am Waith a Mwy yn blaenoriaethu cefnogaeth mewn Ardaloedd Cyflwyno sy'n cyfateb i ôl-troed clystyrau Cymunedau'n Gyntaf, ond nid yw wedi'i gyfyngu i gefnogi pobl sy'n byw yn yr ardaloedd hyn yn unig. Mae'r Gronfa Etifeddiaeth yn adeiladu ar yr elfennau llwyddiannus a mwyaf gwerthfawr o hen raglen Cymunedau'n Gyntaf gan gefnogi ymhellach gyflwyniad effeithiol rhaglenni Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy trwy ddefnyddio adnoddau sy'n targedu cynhwysiad ariannol, cefnogaeth ddigidol, dysgu yn y gymuned a rhaglen newydd Abertawe'n Gweithio, sy'n cydlynu cefnogaeth ar gyfer cyflogaeth yn Abertawe ac yn sicrhau ymagwedd gyfannol at ddarparu'r gefnogaeth gywir ar yr amser cywir. |
| **Cam gweithredu newydd wedi'i ychwanegu ar gyfer 2018**<br>Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes:<br>Darparu amrywiaeth eang o gyrsiau Addysg Oedolion o safon sy'n achrededig a rhai | 2020 | **Ar waith:**<br>Mae Dysgu Gydol Oes yn darparu:<br><br>Dysgu anffurfiol heb ei achredu ym meysydd TG i Ddechreuwyr, Celfyddydau Creadigol a Lles, wedi'u cyflwyno |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| sydd heb fod yn achrededig ar draws Abertawe gan gefnogi dysgwyr i wella eu sgiliau a'u rhagolygon cyflogaeth drwy gyfleoedd dysgu amrywiol. | | ar draws Abertawe i annog y rheiny efallai nad ydynt wedi ystyried dysgu i roi cynnig arni. Mae'r ddarpariaeth hon yn cynyddu cynhwysiad cymdeithasol a lles gyda grŵp amrywiol o unigolion yn rhannu'r profiad dysgu. *Caiff cynnydd ei fesur drwy ffurflenni RARPA - Nodi a chofnodi cynnydd a chyflawniad.*<br><br>Caiff cyrsiau Cefnogaeth Ddigidol, Dysgu fel Teulu, Sgiliau Hanfodol a Dysgu am Oes, wedi'u teilwra ac a gyflwynir ar y cyd, eu cynnig i grwpiau demograffig sy'n anodd eu cyrraedd, sy'n anweithgar yn economaidd ac sydd ar gyrion cymdeithas. Mae prosiectau'n cynnwys Byw/Bwyta'n Iach, Cefnogaeth Ddigidol CC a Chefnogaeth Clwb Gwaith. *Caiff hyn ei fesur trwy gynnydd a thargedau canlyniadau sy'n benodol i brosiectau sy'n gallu cynnwys achrediad.*<br><br>Cyrsiau cyn-mynediad i achrediadau Lefel 2 yn Sgiliau Hanfodol Cymru (SHC) ac Agored Cymru mewn Dysgu fel Teulu, Sgiliau Hanfodol, Sgiliau Gwaith, Llythrennedd Digidol a TG.<br>Rydym hefyd yn cyflwyno Lefel 1 a 2 yr ECDL. Trwy ein rhaglen ddysgu, gallwn gefnogi cyflawni cymwysterau Lefel 2 SHC (sydd gyfwerth â graddau A-C TGAU) yn gyflym. *Mesurir drwy gyflawni achrediadau.*<br><br>*Caiff cynnydd ei fesur hefyd drwy ddysgwyr yn cael eu datblygu i archwilio llwybrau dilyniant addas i ddysgu neu ddarpariaeth ddilynol.* |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| **Cam gweithredu newydd wedi'i ychwanegu ar gyfer 2018**<br>Sicrhau bod Strategaeth Tlodi a Strategaeth Atal y cyngor yn cael eu mabwysiadu, eu cyflwyno a'u monitro ac yr adroddir amdanynt yn effeithiol. | 2018 - 2021 | **Ar waith:**<br>Mae'r cyngor wedi mabwysiadu Strategaeth Trechu Tlodi Abertawe, sef 'Gweithio tuag at ffyniant i bawb yn Abertawe'. Mae'r strategaeth ddiwygiedig yn nodi ymagwedd cyngor cyfan at drechu tlodi yn Abertawe trwy sicrhau bod trechu tlodi'n fusnes i bawb ac mae Cynllun Cyflwyno cysylltiedig sy'n cynnwys ymrwymiadau traws-adrannol.<br>Mae'r cyngor wedi mabwysiadu Strategaeth Atal gyntaf Abertawe hefyd. Mae hyn yn rhoi ymagwedd ataliol wrth wraidd popeth rydym yn ei wneud gan ategu blaenoriaethau corfforaethol a chyflwyniad y Cynllun Lles a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.<br>Mae dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu cwblhau ar draws y cyngor ar gyfer y ddwy strategaeth, gan gynnwys sefydlu gwaelodlinau, targedau ac amserlenni adrodd disgwyliedig ar gyfer pob amcan.<br>Mae Tîm Cyflwyno Strategaethau Tlodi a'i Atal hefyd yn cefnogi'r Fforwm Tlodi, Fforwm Tlodi Partneriaeth Abertawe, y Grŵp Llywio ar Gynhwysiad Ariannol a chyflwyniad amcanion allweddol yn y ddwy strategaeth. |
| Darparu rhaglen hyfforddiant hawliau lles i gefnogi staff Cyngor Abertawe a sefydliadau partner i ymdrin â'r newidiadau sylweddol i'r system fudd-daliadau yn sgîl y broses Diwygio Lles | 2017 | **Ar waith:**<br>Cwblhawyd y rhaglen Hyfforddiant Hawliau Lles gyda mwy o geisiadau am leoedd na'r nifer a oedd ar gael ar y rhan fwyaf o gyrsiau. |
| **Cam gweithredu newydd wedi'i ychwanegu ar gyfer 2018**<br>Darparu gwasanaeth llinell gyngor arbenigol i gefnogi staff Cyngor Abertawe a | 2018 – 2020 | **Ar waith:**<br>Mae'r llinell gyngor ar gael dri diwrnod yr wythnos – dydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener. Mae'r ymholiadau ar y llinell gyngor wedi dod yn fwy cymhleth oherwydd y newidiadau |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| sefydliadau partner i ymdrin â'r system budd-daliadau lles i sicrhau bod cleientiaid yn derbyn eu taliadau cywir. | | sylweddol, sy'n effeithio ar bobl BME a gwladolion yr AEE yn arbennig. |
| **Cam gweithredu newydd wedi'i ychwanegu ar gyfer 2018**<br>Cynrychiolaeth mewn apeliadau ar yr haen gyntaf ac mewn gwrandawiadau Uwch Dribiwnlys. | 2018 - 2020 | **Ar waith:**<br>Mae hyn yn darparu gwasanaeth cynrychiolaeth mewn apeliadau i gleientiaid staff Cyngor Abertawe ac asiantaethau partner. |
| **Cyllid a Chyflwyno** | | |
| Darparu cefnogaeth i ymgeiswyr Credyd Cynhwysol (CC) trwy ddarparu dau barth hunanwasanaeth digidol yn y Ganolfan Gyswllt, gan fod CC yn gais ar-lein. Bydd ein Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid yn darparu cefnogaeth ddigidol, cymorth wrth wneud ceisiadau ar-lein ac yn darparu cyngor ar CC a gwybodaeth amdano i gwsmeriaid.<br>Mae gwasanaeth cefnogaeth cyllidebu personol wedi'i drefnu i gwsmeriaid CC priodol | Asesu effeithiolrwydd bob chwe mis | **Ar waith:**<br>Nid ydym yn rheoli'r Ganolfan Gyswllt mwyach ac felly nid ydym yn gyfrifol am 'ddarparu' y ddau barth hunanwasanaeth er ein bod yn eu defnyddio. Hefyd, y tîm Tlodi a'i Atal sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am reoli cefnogaeth yr awdurdod i ymgeiswyr am CC.<br>Fodd bynnag, mae staff yr Is-adran Budd-daliadau yn darparu cefnogaeth a chymorth digidol gyda gwneud ceisiadau ar-lein am CC o'r ddau barth digidol yn y Ganolfan Gyswllt fel rhan o dîm sy'n gweithio ar draws yr awdurdod cyfan. |
| Darparu llinell gyngor a chyfeiriad e-bost penodol i gynnig cyngor lles i gwsmeriaid, sy'n cynnwys cyngor ar sut mae hawlio Budd-dal Tai, Taliad Tai Dewisol, Gostyngiad Treth y Cyngor a help a chyngor ynghylch newidiadau diwygio lles a budd-daliadau lles eraill | Asesu effeithiolrwydd bob chwe mis | **Ar waith:**<br>O ganlyniad i'r gostyngiad yn nifer y staff, cynigir y cyfleuster hwn yn bennaf i'r rheiny sy'n gwneud cais am Ostyngiad Treth y Cyngor sy'n cael eu cyfeirio am gymorth gan staff yr Is-adran Refeniw yn unig erbyn hyn.<br>Mae ein staff yn parhau i ddarparu cyngor ar hawlio Budd-dal Tai, Gostyngiad Treth y Cyngor a Thaliadau Tai Dewisol ar gais ein cwsmeriaid bob dydd. Nid yw darparu cyngor ar fudd-daliadau gwladol eraill sy'n gofyn am wybodaeth dechnegol |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| | | fanwl am y budd-daliadau hynny yn rhan o'n cylch gorchwyl, er y gall adrannau eraill yn yr awdurdod ddarparu cyngor o'r fath, e.e. y tîm Tlodi a'i Atal. |
| Cefnogi'n rhagweithiol holl achosion Budd-dal Tai y mae'r terfyn budd-dal yn effeithio arnynt | Parhaus a bydd gweithgarwch yn cynyddu pan fydd gwerth y terfyn yn disgyn | **Ar waith:**<br>Mae staff yr Is-adran Budd-daliadau yn parhau i gefnogi cwsmeriaid Budd-dal Tai y mae'r terfyn budd-dal yn effeithio arnynt. Cyflwynwyd y terfyn o 2013 ac ymdriniwyd â'r rhan fwyaf o ymarferion gweithredu ar y pryd, gan gynnwys ail ymarfer pan leihawyd gwerth y terfyn. Daw achosion atom fesul un bellach ac ymdrinnir â hwy'n briodol. |
| Gweithio gyda sefydliadau eraill megis Age Cymru, Canolfan Gofalwyr Abertawe a thimau ymweld yr AGPh i ddarparu cyngor ac arweiniad ar fudd-daliadau, Gostyngiad Treth y Cyngor a chynlluniau disgownt Treth y Cyngor | Asesu effeithiolrwydd bob chwe mis | **Ar waith:**<br>Wedi'i ariannu gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, rydym wedi datblygu perthynas â Shelter Cymru i ddarparu cefnogaeth cyllidebu personol ar gyfer ein cwsmeriaid yn ôl yr angen. Sefydlwyd cymhorthfa galw heibio yn y Ganolfan Gyswllt yn gynharach eleni ond, oherwydd diffyg diddordeb, cafodd ei newid yn wasanaeth sy'n seiliedig ar atgyfeiriadau. Rydym yn rhan o'r tîm yn yr awdurdod sy'n cefnogi hawlwyr Credyd Cynhwysol. |
| Gwaith gyda banciau bwyd megis Banc Bwyd Abertawe (ni yw'r asiant dosbarthu mwyaf), Banc Bwyd Eastside a Banc Bwyd Mosg Abertawe. Ar gyfer pob banc bwyd, byddwn yn gweithredu fel asiant cyfeirio gan ddarparu cyngor ar fudd-daliadau lles i'r banciau bwyd i gynorthwyo cwsmeriaid mewn argyfwng bwyd | Asesu effeithiolrwydd bob chwe mis | **Ar waith:**<br>Mae lleihad mewn adnoddau a chynlluniau am weithio ystwyth (dim storfeydd) yn golygu na fyddwn yn gallu darparu pecynnau bwyd mwyach ond gallwn barhau i ddosbarthu talebau am becynnau bwyd ar ran y banciau bwyd lleol. |
| Darparu cyngor i rieni ac ysgolion ar ymholiadau ynghylch Prydau Ysgol am Ddim a'r Grant Gwisg Ysgol | Asesu effeithiolrwydd bob chwe mis | **Ar waith:** |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| | | Mae'r is-adran yn parhau i wneud hyn gan ddarparu llinell ymholiadau ddynodedig i ysgolion ei ffonio gydag ymholiadau ynghylch prydau ysgol am ddim. |
| Darparu cyngor a gwybodaeth i gwsmeriaid ynghylch y cyngor amrywiol sydd ar gael, e.e. Gostyngiad Cartrefi Cynnes, Cymorth Dŵr Cymru, Talebau Cychwyn Iach, Cronfa Cymorth Dewisol, Pasbort i Hamdden, etc. | Asesu effeithiolrwydd bob chwe mis | **Ar waith:**<br>Rydym yn parhau i wneud hyn ac rydym mewn trafodaeth ynghylch bod yn gyfrifol am reoli'r cynllun Pasbort i Hamdden o ddydd i ddydd â'r bwriad o wneud y broses ymgeisio'n fwy effeithlon er hwylustod ein cwsmeriaid. |

| **Amcan Cydraddoldeb 11 – Sicrhau bod arferion ymgynghori a chynnwys yn gynhwysol ac ymgymryd â gweithgareddau cynyddu ymwybyddiaeth** |
|---|
| **Cyswllt â'r Blaenoriaethau Corfforaethol: Adeiladu cymunedau cynaliadwy** |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| **Cyfathrebu a Chynnwys Cwsmeriaid** | | |
| Parhau â rhaglen cynnwys cydraddoldeb gyda fforymau a grwpiau allweddol gan gynnwys: Grŵp Cydgysylltu Anableddau, Fforwm Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig, Fforwm LGBT a Rhwydwaith 50+<br><br>Parhau i gefnogi digwyddiadau cydraddoldeb gyda'r fforymau a'r grwpiau hyn<br><br>Gwella cynnwys grwpiau anableddau lleol trwy'r Grŵp Cydgysylltu Anableddau (GCA) | Asesu effeithiolrwydd yn flynyddol | **Ar waith:**<br>Mae'r gwaith hwn wedi parhau yn unol â'r adroddiad naratif (5.4) a'r diweddariad penodol a geir isod am y Rhwydwaith 50+. |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| Adolygu Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLl) Dinas a Sir Abertawe a Chynllun Gweithredu Bwrdd Dinas Iach, Heneiddio'n Dda a Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn 2015-2019<br><br>Cynnwys gwaith gyda Rhwydwaith 50+ Abertawe a mecanweithiau/dulliau cynnwys perthnasol eraill gyda phobl hŷn yn yr adolygiad blynyddol | Bob blwyddyn | **Ar waith:**<br>Rydym wedi parhau i weithio gyda'r Rhwydwaith 50+ ac Abertawe sy'n Ystyriol o Ddementia i ddatblygu gwaith ynghylch Heneiddio'n Dda. |
| Trefnu digwyddiad i gynnwys cyfarfod blynyddol Rhwydwaith 50+ Abertawe a digwyddiad cyhoeddus i ddathlu Diwrnod Pobl Hŷn yn y DU | Bob blwyddyn | **Ar waith:**<br>Cynhaliwyd dathliad Diwrnod Pobl Hŷn y DU ym mis Hydref 2017 ynghyd â nifer o weithgareddau cynnwys eraill. |
| **Tlodi a'i Atal** | | |
| Sicrhau bod y Sgwrs Fawr yn parhau i gwmpasu amrywiaeth o fecanweithiau sy'n ceisio hwyluso'r cyfranogiad helaethaf posibl gan yr holl blant a phobl ifanc | 2017 | **Ar waith:**<br>Mae cynnydd cyson yn nifer y cyfranogwyr yn y Sgwrs Fawr wedi parhau gyda chyfleoedd newydd i estyn ystod oedran y Sgwrs Fawr wedi'u cynllunio a'u hyrwyddo.<br>Cafodd 6,087 o blant a phobl ifanc y cyfle i fynegi eu barn drwy ddulliau'r Sgwrs Fawr a gydlynwyd gan y Tîm Cyfnodau Bywyd, gan gynnwys:<br>• Fforymau'r Sgwrs Fawr<br>• Fforymau Llais y Disgybl<br>• Fforymau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal<br>• Ymgynghoriadau penodol, megis yr ymgynghoriad ar yr asesiadau o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae a gofal plant<br>• Pleidleisio yn Senedd Ieuenctid y DU |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| | | • Arolwg Mawr PPI |
| Parhau ag amrywiaeth o ymgynghoriadau cynhwysol penodol i chwarae gyda grwpiau ac unigolion a nodwyd. Ymgymryd ag ymgynghoriad penodol â grwpiau allweddol â nodweddion gwarchodedig fel rhan o Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2016/19 | 2019 | **Ar waith:**<br>Ymgynghoriad yn parhau â rhieni/gofalwyr a chynrychiolwyr. Mae ymgynghoriadau pwysig yn cynnwys:<br>• Lleoliad siglen gyntaf Abertawe mewn parc cyhoeddus sy'n addas ar gyfer cadeiriau olwyn, gan gynnwys ymgynghori â defnyddwyr cadeiriau olwyn ifanc<br>• Y broses ar gyfer cyfleoedd chwarae a hamdden fel rhan o'r Adolygiad Comisiynu o wasanaethau anabledd, gan gynnwys dau ddigwyddiad cynnwys penodol a diwrnod cynnwys ar gyfer pobl ifanc |
| Cynnwys cymunedau Teithwyr trwy chwarae teithiol Chwarae ar Olwynion | 2019 – cyfrannu at yr Archwiliad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae | **Ar waith:**<br>Bu Chwarae ar Olwynion yn parhau i ddarparu cyfleoedd chwarae teithiol allgymorth ar y safle Morganite a chyflwynwyd 28 o sesiynau yn ystod 17/18. |
| Sicrhau bod amrywiaeth eang o bobl leol, gan gynnwys aelodau mwyaf ymylol y gymuned, yn cael eu cynnwys yn rhaglen Cymunedau'n Gyntaf. Bydd gweithgareddau'n cynnwys rhannu gwybodaeth, cyfranogiad gweithredol, cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth rhwng unigolion a sefydliadau, a grymuso pobl leol | Mawrth 2017 | **Wedi'i gwblhau:**<br>Roedd rhaglen Cymunedau'n Gyntaf wedi sefydlu Tîm Cynnwys a Chefnogi'r Gymuned er mwyn sicrhau bod aelodau mwyaf difreintiedig y gymuned yn gallu derbyn gwasanaethau a chefnogaeth yn lleol ac i rymuso pobl a chymunedau i fod yn fwy gwydn.<br>Mae rôl ac adnoddau i rymuso cymunedau yn y dyfodol yn cael eu datblygu ar hyn o bryd gyda Llywodraeth Cymru. |
| Sicrhau bod agweddau perthnasol y Cynllun Heneiddio'n Dda wedi'u sefydlu yn yr amcanion cydraddoldeb hyn o 2017 | 2017 | **Ar waith:**<br>Byddwn yn ystyried adolygu amcanion Heneiddio'n Dda yn unol ag ymagwedd Hawliau Dynol ar gyfer 18/19. |
| **Tai a Diogelu'r Cyhoedd** | | |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| Rhoi Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Lleol (SCTLl) 2015-18 wedi'i diweddaru ar waith | 2018 – adolygiad bob chwarter gyda'r Grŵp Llywio Tenantiaid | **Ar waith:**<br>Mae'r strategaeth CT newydd ar gyfer 2018-2021 yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd a chaiff ei chwblhau erbyn diwedd 2018. Gwneir hyn mewn ymgynghoriad â thenantiaid. |
| Parhau i weithio mewn partneriaeth â'r Tîm Cynhwysiad Ieuenctid, i annog cyfranogiad pobl ifanc mewn materion tai (i geisio sefydlu grŵp ar gyfer pobl ifanc yn unig a'u hannog i ymuno â grwpiau eraill) | Adolygiad cynnydd blynyddol ym mis Rhagfyr bob blwyddyn | **Ar waith:**<br>Cynhaliwyd ymweliad â disgyblion blwyddyn 6 Ysgol Parklands mewn ymateb i ohebiaeth ganddynt ynghylch diogelwch yn ein blociau uchel ac roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn gan yr ysgol. Nid yw grŵp ieuenctid y sgwrs fawr am dai wedi cwrdd yn ddiweddar oherwydd trafferthion recriwtio, felly mae'r gwasanaeth yn archwilio'r syniad o ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i gynnwys pobl ifanc. |
| Hyrwyddo a chynyddu ymwybyddiaeth o argaeledd:<br>– Priodasau un rhyw i'r seremoni priodas sifil<br>Y broses gyfreithiol sy'n galluogi parau sydd wedi ffurfio partneriaeth sifil i'w throi'n briodas | Caiff ei monitro'n fisol | **Ar waith:**<br>Parhaus ac yn cael ei fonitro'n fisol. Gwybodaeth wedi'i diweddaru ar y wefan. |
| **Gwasanaethau Adeiladau ac Eiddo Corfforaethol** | | |
| Adolygu'r ymgynghoriad cyfredol â grwpiau mynediad lleol i wella mynediad ffisegol i adeiladau a gwasanaethau | Yn parhau gydag adolygiadau blynyddol | **Ar waith:**<br>Hyd yn hyn, ni ofynnwyd i Jason fynd i unrhyw gyfarfodydd ond mae'n hapus i fynd i'r cyfarfod SAFE a'r Grŵp Cydgysylltu Anableddau yn ôl yr angen ac os yw ei lwyth gwaith yn caniatáu. |
| **Adfywio Economaidd a Chynllunio** | | |
| Canolbwyntio ar drefniadau a dulliau ymgysylltu gyda grwpiau cydraddoldeb i | Yn parhau gydag adolygiadau blynyddol | **Ar waith:**<br>Ymgymerwyd â gwaith cynnwys sylweddol fel rhan o ddyluniad cynllun Abertawe Ganolog a'r broses o gyflwyno ceisiadau |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| sicrhau cynhwysiad a helpu i wella cyflwyno rhaglenni gwaith cyfredol | | cynllunio ar ei gyfer, prosiect adfywio Ffordd y Brenin, y CDLl Adnau a phrosiectau a mentrau amrywiol eraill ar draws y gwasanaeth. |
| **Gwasanaethau Diwylliannol** | | |
| Cynyddu ymwybyddiaeth o wasanaethau diwylliannol a nodi rhwystrau i gyfranogiad trwy ymgysylltu â grwpiau cydraddoldeb allweddol | 2018 – a pharhau i fonitro cynnydd | **Ar waith:**<br>Gyda'r broses gomisiynu bresennol yn mynd rhagddi yn y Gwasanaethau Diwylliannol, mae gwaith yn cael ei wneud i fonitro'r effaith ar gydraddoldeb a sicrhau bod polisïau cydraddoldeb ymgeiswyr yn glir fel rhan orfodol o'r broses.<br><br>Rydym yn ymdrechu i ddefnyddio modelau sy'n cynrychioli dinasyddion amrywiol Abertawe ac rydym yn ceisio sicrhau bod ein hymgyrchoedd marchnata yn apelio at bobl o bob cymuned a chefnogir hynny drwy ein fideos a'n delweddau. Cyfeirir at hyn ym manylebau tendrau.<br><br>Amgueddfa Abertawe:<br>Mae gwaith gydag arddangosfeydd a phrosiectau wedi cynnwys gweithio gyda phobl ifanc NEET a chyda gofalwyr ifanc. Roedd arddangosfa Opera Abertawe yn cynnwys gwaith gyda llawer o grwpiau BAME gan gynnwys y Ganolfan Gymunedol Affricanaidd a'r Ganolfan Gymunedol Tsieineaidd.<br><br>Yn ystod 2018, bydd yr arddangosfa Un Abertawe yn archwilio mewnfudiad a hunaniaeth. Fel rhan o'r arddangosfa, ceisir gweithdai a chyfraniadau gan ffoaduriaid a cheiswyr lloches presennol. Bydd yr amgueddfa hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Race Council Cymru, y Ganolfan Gymunedol Affricanaidd a YMCA Abertawe ar brosiect yn archwilio hunaniaeth a cherddoriaeth ar gyfer pobl ifanc BAME yn |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| | | benodol. Bydd prosiect ar wahân mewn partneriaeth â Race Council Cymru a Senedd y DU yn archwilio hanner canmlwyddiant y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol. Yn yr hydref, bydd arddangosfa ar ganmlwyddiant y bleidlais i fenywod hefyd yn archwilio materion cyfoes menywod ifanc heddiw. |

| **Amcan Cydraddoldeb 12 – Gwaith ar fentrau iechyd a chwaraeon sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i'n cymunedau** |
|---|
| **Cyswllt â'r Blaenoriaethau Corfforaethol: Adeiladu cymunedau cynaliadwy** |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| **Tai a Diogelu'r Cyhoedd** | | |
| Cyflwyno Cynllun Gweithredu Tybaco ar gyfer Abertawe a fydd yn canolbwyntio ar ardaloedd a nodwyd mewn asesiadau anghenion lleol ac ymarferion mapio | Yn unol â'r dyddiadau cau yn y cynllun gweithredu | **Ar waith:**<br>Cyflwynwyd y cynllun gwaith ac mae'n parhau gyda thybaco anghyfreithlon a thraethau di-fwg. |
| **Gwasanaethau Diwylliannol** | | |
| Sicrhau yr ystyrir materion cydraddoldeb perthnasol wrth adolygu amserlenni canolfannau hamdden (a lleoliadau eraill) | Parhaus | **Ar waith:**<br>Rhoddir ystyriaeth i faterion cydraddoldeb bob amser wrth drefnu gweithgareddau. Lle mae newidiadau i raglenni yn nodi goblygiadau posib i unigolion neu grwpiau, yna ymgynghorir yn ôl yr angen cyn rhoi'r newidiadau ar waith.<br><br>Ni chodir tâl ar ofalwyr neu gymdeithion sy'n dod gyda defnyddwyr anabl y mae angen cymorth arnynt i sicrhau nad yw hyn yn rhwystr i gyfranogaeth.<br><br>Mae'r cyngor yn cyhoeddi datganiadau mynediad ar gyfer canolfannau hamdden ar eu gwe-dudalennau. |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| Datblygu Rhaglen Dyfodol Cynhwysol sy'n gweithio ar raglenni, digwyddiadau ac etifeddiaeth chwaraeon anabledd. | 2018 – a pharhau i fonitro cynnydd | **Ar waith:** Cynhaliwyd cynllun peilot llwyddiannus ar gyfer y rhaglen dyfodol cynhwysol yn Abertawe. Mae Chwaraeon Anabledd Cymru bellach wedi rhoi’r rhaglen ar waith yn genedlaethol. Rydym bellach yn cymryd rhan drwy ein Swyddog Datblygu Chwaraeon Anabledd sy'n gallu cyfeirio at adnoddau'r cynllun a'u defnyddio yn ôl yr angen. |
| Parhau i gyflwyno Insport i glustnodi partneriaid a sefydliadau gwirfoddol i annog integreiddio pobl anabl i glybiau chwaraeon prif ffrwd trwy lwybrau'r corff llywodraethu chwaraeon cenedlaethol | 2018 – a pharhau i fonitro cynnydd | **Ar waith:** Mae Insport yn parhau i fod yn ysgogydd allweddol ar gyfer ein hymagwedd at chwaraeon anabledd. Rydym yn parhau i achredu clybiau a sefydliadau a byddwn yn ymdrechu i gynyddu ein hachrediad cenedlaethol gydag Insport yn dilyn archwiliad a chyflwyniad i banel Chwaraeon Anabledd cenedlaethol ym mis Mai 2018. |
| Cynyddu cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn cyfleoedd chwaraeon ar ôl ysgol (allgyrsiol) | 2018 – a pharhau i fonitro cynnydd | **Ar waith:** Mae hyn yn un o rolau sylfaenol y Tîm Datblygu Chwaraeon Cymunedol a Phobl Ifanc Actif. Mae cysylltiadau rhwng chwaraeon ysgol a chlybiau, adeiladu gallu mewn cymunedau ac ymgynghori â phobl ifanc yn parhau i fod yn rhan ddyddiol o gynllun gweithredol y tîm. |
| Parhau i gymryd camau i leihau'r bwlch rhwng y rhywiau ymhellach o ran cyfranogi mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol | 2018 – a pharhau i fonitro cynnydd | **Ar waith:** Rydym yn parhau i gynnig gweithgareddau i ferched yn unig ac yn ymgynghori'n rheolaidd â merched mewn ysgolion a chymunedau. Rydym hefyd yn arwain y rhaglen "Ni Ferched" yn Abertawe sydd ar gyfer merched rhwng 11 ac 19 oed mewn ardaloedd tlawd. Rydym wedi derbyn cydnabyddiaeth ryngwladol am y rhaglen hon a chawsom ein henwebu am wobr datblygu chwaraeon yn y DU trwy Streetgames yn 2018. |

| Amcan Cydraddoldeb 13 - Parhau i wella ymwybyddiaeth staff ac aelodau o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth |
|---|
| **Cyswllt â’r Gwerth Corfforaethol: Ffocws ar bobl** |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| **ADNODDAU DYNOL A DATBLYGIAD SEFYDLIADOL** | | |
| Adolygu deunydd hyfforddi'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn gyfoes ac yn cwmpasu meysydd gwaith sy'n dod i'r amlwg, e.e. cymunedau sy'n ystyriol o bobl hŷn, dementia, CCUHP, etc. | Adolygiadau bob chwe mis | **Ar waith:**<br>Cwblhawyd y gwaith hwn fel mater o drefn ac mae adnoddau hyfforddiant wedi parhau i gael eu monitro a'u diwygio yn ôl yr angen.<br><br>Mae ymwybyddiaeth o ddementia a diogelu plant, gan gynnwys camfanteisio’n rhywiol ar blant a masnachu pobl ar ein porth dysgu.<br><br>Caiff yr holl gyrsiau e-ddysgu eu hadolygu gan arbenigwyr yn y maes i sicrhau eu bod yn briodol. |
| Sicrhau bod gan yr holl staff ysgol ac athrawon fynediad at hyfforddiant cynyddu ymwybyddiaeth priodol sy'n ymwneud â chydraddoldeb | Mynediad ar waith ar hyn o bryd. Hyrwyddo i'w gynllunio gyda'r Prif Swyddog Addysg yn 2016 a'r galw wedi'i fonitro bob chwe mis | **Ar waith:**<br>Ychydig o alw sydd wedi bod. Mae darpariaeth fewnol wedi bod yn ddigonol i ateb y galw am hyfforddiant.<br><br>Mae cydraddoldeb a materion eraill ar gael ar y porth e-ddysgu, ac yn ogystal gall staff ysgolion gael mynediad at Staffnet lle gallant ddarllen polisïau etc. |
| Datblygu cyfres o gyrsiau e-ddysgu ar sail modiwlau a fydd yn cynnwys meysydd pwnc megis dementia, troseddau casineb, masnachu plant etc. | Rhagfyr 2016 | **Wedi'i gwblhau:**<br>Mae'r cyrsiau hyfforddi e-ddysgu canlynol wedi cael eu hychwanegu at ein portffolio:<br>• Ymwybyddiaeth o Ddementia<br>• Ymwybyddiaeth o Drais Domestig<br>• Ymwybyddiaeth o Bobl Drawsryweddol |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
| --- | --- | --- |
| | | • Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg<br>• Diogelu<br><br>Yn ogystal â hyn:<br>Mae cwrs hyfforddiant ar Droseddau Casineb wedi cael ei ddatblygu a'i dreialu; mae'n disgwyl diwygiadau ar hyn o bryd.<br><br>Mae ein cwrs e-ddysgu ar gydraddoldeb ac amrywiaeth yn parhau i gael ei fonitro i sicrhau ei fod yn briodol. |
| Adolygu sefydlu corfforaethol yn rheolaidd i sicrhau bod hyfforddiant yn gyfoes ac yn cynnwys meysydd gwaith sy'n dod i'r amlwg, e.e. cymunedau sy'n ystyriol o bobl hŷn, pobl â dementia, CCUHP, etc. | Adolygiadau bob chwe mis | **Ar waith:**<br>Cwblheir yn rheolaidd i sicrhau bod cyfnodau sefydlu corfforaethol yn berthnasol ac yn addas at y diben.<br><br>Mae hyn eto'n cael ei adolygu mewn perthynas â chyfleoedd posib i wella'r broses sefydlu drwy archwilio meysydd sefydlu newydd. |
| Sicrhau y caiff hyfforddiant corfforaethol ei fonitro i adlewyrchu'r presenoldeb ar bob cwrs hyfforddi corfforaethol yn gywir | Bob blwyddyn | **Ar waith:**<br>Cofnodir hyfforddiant corfforaethol a gellir adrodd amdano ar y System Ddata Rheoli Dysgu (OLM) cyngor cyfan.<br><br>Mae hyn yn parhau a cheir adroddiadau blynyddol o gyflwyniad hyfforddiant a dadansoddiad o alw i lywio cynllunio cyrsiau yn y dyfodol. |
| **Tlodi a'i Atal** | | |
| Cyflwyno lefelau hyfforddiant priodol ac addas ar CCUHP a hawliau plant | 2017 | **Ar waith:**<br>• Cynigir cyfleoedd datblygu'r gweithlu gan y Tîm Cyfnodau Bywyd trwy raglenni hyfforddiant Tlodi a'i Atal, Addysg a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd gan hyfforddi 141 o aelodau o staff. |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| | | • Darperir hyfforddiant CCUHP i gynghorwyr newydd ar ôl cwblhau'r cyfnod sefydlu.<br>• Cynigir cyfleoedd datblygu'r gweithlu wedi'u teilwra gan y Tîm Cyfnodau Bywyd ar gais ac yn ôl yr angen, e.e. Hawliau Plant mewn Lleoliadau Cyn Ysgol. |
| Ailddosbarthu'r arolwg staff a lenwyd gyntaf yn 2014 i'r holl staff a chynghorwyr er mwyn mesur gwybodaeth am hawliau plant a CCUHP a dealltwriaeth ohonynt | 2016 | **Wedi'i gwblhau:**<br>Yn dilyn yr arolwg gwaelodlin cychwynnol, cynhaliwyd arolwg dilynol i fesur dealltwriaeth o Hawliau Plant. Dangosodd hyn welliant mewn dealltwriaeth o CCUHP a gwybodaeth amdano a nodwyd meysydd i'r datblygu. |
| Cyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth o geiswyr lloches a ffoaduriaid i alluogi staff i ddeall y materion sy'n wynebu ceiswyr lloches a ffoaduriaid a gwneud gwasanaethau'n fwy hygyrch a chroesawgar | 2017 | **Ar waith:**<br>Eleni, cyflwynwyd hyfforddiant i gydweithwyr yn y gwasanaethau Diwylliant a Thwristiaeth ac i dîm Gweithffyrdd. |
| Datblygu a lledaenu gwybodaeth am gymunedau ymfudwyr Abertawe i staff ac aelodau etholedig | 2017 | **Ar waith:**<br>Caiff gwybodaeth berthnasol a chyfredol ei throsglwyddo i aelodau etholedig (gan gynnwys aelodau'r Cabinet) ac i staff yn ôl yr angen ac fel y bo'n briodol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a gafodd ei chynnwys yn y broses o ymuno â'r Rhwydwaith Dinasoedd Rhyngddiwylliannol. |
| Cyflwyno digwyddiadau ymwybyddiaeth a gweithdy i gynyddu ymwybyddiaeth o hyfforddiant Prevent (WRAP) i staff rheng flaen priodol ac aelodau etholedig. | 2020 - gyda chynllun gweithredu wedi'i adolygu a'i ddiweddaru'n flynyddol | **Ar waith:**<br>Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, Ebrill 17 – Mawrth 18<br>• Derbyniodd 499 o unigolion (gan gynnwys staff o'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Timau Iechyd Meddwl Cymunedol, ysgolion, lleoliadau Dechrau'n Deg ac aelodau etholedig) hyfforddiant ymwybyddiaeth PREVENT.<br>• Derbyniodd 101 o aelodau o staff hyfforddiant ymwybyddiaeth o eithafiaeth asgell dde. |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| | | • Cwblhaodd 239 o aelodau o staff y cwrs e-ddysgu Prevent gorfodol. |
| **Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** | | |
| Rhoi'r newyddion diweddaraf bob 6 mis ar adran gyfreithiol y fewnrwyd o ran cyfraith achosion sy'n ymwneud â materion cydraddoldeb | Bob 6 mis | **Ar waith:**<br>Cyhoeddwyd Bwletin Cydraddoldeb ym mis Mai 2018. Roedd hyn yn edrych ar yr holl gyfraith achosion perthnasol ac yn adrodd am achosion allweddol. |
| **Pob adran** | | |
| Parhau i ddarparu a hyrwyddo hyfforddiant/gwybodaeth cydraddoldeb sy'n benodol i wasanaeth lle y bo angen | Parhaus trwy'r newyddion diweddaraf yn flynyddol | **Ar waith:**<br>Gall enghreifftiau o bob rhan o'r sefydliad gynnwys:<br><br>Addysg:<br>Mae gofyn i'r holl staff gwblhau'r modiwl hyfforddiant cydraddoldeb corfforaethol ar-lein.<br><br>Gwasanaethau i Oedolion:<br>Mae'r Gwasanaethau i Oedolion wedi datblygu Dadansoddiad Anghenion Hyfforddiant a fydd yn llywio Cynllun Datblygu Gweithlu'r Gwasanaethau i Oedolion. Bydd Hyfforddiant Cydraddoldeb yn rhan o hyn.<br><br>Priffyrdd:<br>Cyflwynir hyfforddiant gorfodol. Mae'r holl staff yn derbyn hyfforddiant cydraddoldeb ar raglen dreigl, yn enwedig staff rheng flaen.<br><br>Cyfathrebu:<br>Mae'r tîm cyfathrebu yn helpu i hyrwyddo materion ynghylch cydraddoldeb i'r holl staff drwy ein llwyfannau cyfathrebu |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
| --- | --- | --- |
| | | mewnol a chaiff cyfleoedd hyfforddiant eu hyrwyddo a'u trafod yn y tîm.<br><br>Tlodi a'i Atal:<br>Mae prosiectau chwarae a ariennir yn derbyn hyfforddiant cynhwysiad ac ymwybyddiaeth ohono fel gofyniad hanfodol o'r cyllid.<br><br>Mae Llyfryn Hyfforddiant y Blynyddoedd Cynnar yn parhau i gynnwys hyfforddiant ar gyfer darparwyr ynghylch Ymwybyddiaeth o Anabledd/Hyder, Hwyl gyda'r Gymraeg, a sesiynau ar fasnachu pobl at ddibenion rhywiol a meysydd tebyg. |

**Amcan Cydraddoldeb 14 - Cydymffurfio â'r rheoliadau caffael ac asesiadau effaith a bennwyd yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011**

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
| --- | --- | --- |
| Wrth gaffael gwaith, nwyddau neu wasanaethau, byddwn yn rhoi sylw priodol i briodoldeb y canlynol:<br>• cynnwys ystyriaethau i helpu i fodloni’r ddyletswydd gyffredinol yn y meini prawf cyn-gymhwyso a/neu ddyfarnu<br>• pennu amodau sy'n ymwneud â pherfformiad y contract i helpu i fodloni tri nod y ddyletswydd gyffredinol | Adolygu effeithiolrwydd bob chwe mis | **Ar waith:**<br>Mae'n rhaid i holl weithgarwch caffael y cyngor roi sylw priodol i'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol. Yn ogystal, mae'n rhaid i'r holl weithgarwch caffael â budd trawsffiniol posib gydymffurfio ag egwyddorion Cytuniad yr Undeb Ewropeaidd sy'n sicrhau tegwch a thryloywder. |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2018 |
|---|---|---|
| Parhau i weithredu'r broses Asesu Effaith Cydraddoldeb (AEC) ar draws y sefydliad | Adolygu effeithiolrwydd bob chwe mis | **Ar waith:**<br>Mae'r broses hon yn parhau i gael ei defnyddio gyda phynciau pob adroddiad corfforaethol a gyflwynir i'r pwyllgor Briffio Corfforaethol, y Cabinet a'r cyngor (ynghyd â phwyllgorau eraill). Caiff ei defnyddio hefyd yn ystod y broses o bennu'r gyllideb, gyda phrosiectau mawr yn ogystal â'r holl adolygiadau comisiynu. |
| Parhau i sicrhau ansawdd gwaith sgrinio ac adroddiadau AEC, gan roi adborth i adrannau | Adolygu effeithiolrwydd bob chwe mis | **Ar waith:**<br>Caiff swyddogion eu cefnogi gan y Tîm Mynediad at Wasanaethau drwy gyfarfodydd, adborth anffurfiol cychwynnol a sesiynau tîm wedi'u teilwra ar gais. Mae proses sicrhau ansawdd Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn cynnwys swyddogion sy'n arbenigo mewn cydraddoldeb, hawliau plant, tlodi, y Gymraeg, ymgynghori a chynnwys. |

# Atodiad 2

## Proffil Gweithlu Cyngor Abertawe


Mae'r system a ddefnyddir i gasglu data cyflogaeth a hyfforddiant yn parhau i gael ei diweddaru i gasglu mwy o wybodaeth fanwl. Fodd bynnag, nid yw'r data cydraddoldeb sydd ar gael yn gyflawn oherwydd nad oes rhaid i weithwyr ddarparu'r wybodaeth hon; mae gwaith yn parhau i annog gweithwyr i ddiweddaru eu manylion.

Ni chaiff staff cyflenwi a staff achlysurol eu cynnwys.

### Proffil Rhyw y Gweithlu (swyddi)

| Cyfrif o Nifer y Gweithwyr | | |
|---|---|---|
| Rhyw | Categori Cyflogaeth | Cyfanswm |
| Benyw | Parhaol - Amser llawn | 1198 |
| | Parhaol - Rhannu swydd | 66 |
| | Parhaol - Rhan-amser | 3047 |
| | Dros dro - Amser llawn | 292 |
| | Dros dro - Rhannu swydd | 7 |
| | Dros dro - Rhan-amser | 2959 |
| Cyfanswm y Menywod | | 7569 |
| Gwryw | Parhaol - Amser llawn | 1946 |
| | Parhaol - Rhannu swydd | 7 |
| | Parhaol - Rhan-amser | 413 |
| | Dros dro - Amser llawn | 228 |
| | Dros dro - Rhan-amser | 380 |
| Cyfanswm y Dynion | | 2974 |
| Cyfanswm y Cyfan | | 10543 |


### Oed



## Athrawon


| Cyfrif o Nifer y Gweithwyr | Rhyw | | |
|---|---|---|---|
| Categori Cyflogaeth | Benyw | Gwryw | Cyfanswm y Cyfan |
| Parhaol - Amser llawn | 859 | 387 | 1246 |
| Parhaol - Rhannu swydd | 9 | | 9 |
| Parhaol - Rhan-amser | 275 | 22 | 297 |
| Dros dro - Amser llawn | 238 | 92 | 330 |
| Dros dro - Rhannu swydd | 1 | | 1 |
| Dros dro - Rhan-amser | 159 | 21 | 180 |
| Cyfanswm y Cyfan | 1541 | 522 | 2063 |

## Proffil Oed Athrawon




**Nodweddion Gwarchodedig (Holl staff)**

**Anableddau - Gweithlu Cyffredinol (swyddi)**





**Ethnigrwydd (swyddi)**





Sylwer: o ran y gweithwyr a ddatganodd eu bod yn aelod o grŵp ethnig, mae'r mwyafrif yn dod o grŵp heb ddigon o niferoedd i'w gofnodi (sef llai na deg) ac felly maent wedi'u grwpio gyda'i gilydd fel 'grwpiau ethnig eraill'

## Crefydd neu gred




## Tueddfryd rhywiol



**Gwybodaeth am hyfforddiant a gasglwyd 2017 – 18**

D.S. Lle mae ffigurau yn llai na 10, mae'r rhain wedi'u nodi gyda *

**Yn ôl rhyw:**

| | |
|---|---|
| Gwryw | 1386 |
| Benyw | 1638 |

**Yn ôl oed:**

| | |
|---|---|
| 24 ac iau | 149 |
| 25 – 39 | 771 |
| 40 – 49 | 868 |
| 50 – 59 | 927 |
| 60+ | 309 |

**Yn ôl cenedligrwydd:**

| | |
|---|---|
| Prydeinig (gan gynnwys Cymreig, Albanaidd, Seisnig a Gwyddelig) | 1281 |
| Ddim yn Brydeinig | 28 |
| Heb ei nodi | 1715 |

**Yn ôl grŵp ethnig:**

| | |
|---|---|
| Gwyn | 676 |
| Arall (gan gynnwys Asiaidd, Du, Tsieineaidd, etc.) | 16 |
| Heb ei nodi | 2332 |

**Yn ôl crefydd:**

| | |
|---|---|
| Cristnogaeth | 278 |
| Arall (gan gynnwys Iddewiaeth, Islam, Bwdhaeth etc.) | 22 |
| Dim | 210 |
| Heb ei nodi | 2514 |

**Yn ôl anabledd:**

| | |
|---|---|
| Salwch tymor hir, problem iechyd neu anabledd | 17 |
| Dim | 129 |
| Heb ei nodi | 2879 |

**Yn ôl tueddfryd rhywiol:**

| | |
|---|---|
| Syth/gwahanrywiol | 579 |
| Hoyw/lesbiaidd | 13 |
| Deurywiol | * |
| Arall | * |
| Heb ei nodi | 2427 |

**Yn ôl hunaniaeth rhywedd:**

| | |
|---|---|
| Uniaethu fel trawsryweddol | * |
| Ddim yn uniaethu fel trawsryweddol | 605 |
| Heb ei nodi | 2417 |